**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddiaeth (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddiaeth (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

4 Tachwedd 2025

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

## 1. Disgrifiad

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ('y Ddeddf') yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n eu galluogi i ddarparu cymorth, drwy gynllun neu fel arall, ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n digwydd yng Nghymru.

Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y fframwaith rheolaethau sy'n ofynnol i weithredu a gweinyddu cymorth amaethyddol yn effeithlon ac yn effeithiol ac maent yn unol ag adrannau 10(1) a 12(1) o'r Ddeddf. Maent yn darparu ar gyfer y rheolaethau a'r fframwaith gorfodi sy'n ofynnol i gefnogi cynlluniau cymorth yn y dyfodol, megis:

- Gwirio bod meini prawf cymhwysedd yn cael eu bodloni;
- Y canlyniadau pan fydd cymorth wedi ei ddarparu heb i feini prawf cymhwysedd gael eu bodloni;
- Gorfodi cydymffurfedd ag unrhyw amodau y darperir neu y darparwyd cymorth yn ddarostyngedig iddynt;
- Monitro i ba raddau y mae pwrpas y cymorth wedi ei gyflawni;
- Ymchwilio i droseddau a amheuir mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth neu â darparu cymorth.
- Cyhoeddi gwybodaeth benodol am y cymorth a ddarperir neu a ddarparwyd yn unol ag Adran 8 y Ddeddf.

Bydd y Rheoliadau yn darparu unffurfiaeth pan fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r swyddogaethau fframwaith rheoli i redeg a gweinyddu'r holl gynlluniau cymorth amaethyddol yn y dyfodol yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r Rheoliadau yn darparu pwerau sy'n galluogi'r fframwaith rheolaethau a gorfodi sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu a gweinyddu'r holl gymorth a ddarperir yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf yn effeithlon.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth i'r sector amaethyddol, ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n digwydd yng Nghymru, yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf honno. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu a gweinyddu cymorth (cynlluniau neu fel arall).

Gwneir y Rheoliadau hyn yn unol ag adran 10(1) a 12(1) o'r Ddeddf er mwyn galluogi'r rheolaethau gweithredol a gweinyddol sy'n ofynnol i ddarparu'r holl

gymorth amaethyddol a sefydlir yn y dyfodol yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf yn effeithiol.

Mae adran 10(1) y Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth benodedig (fel a bennir yn y rheoliadau) am gymorth sy'n cael neu sydd wedi cael ei ddarparu o dan adran 8. Caiff yr wybodaeth y caniateir ei phennu yn y rheoliadau gynnwys gwybodaeth am dderbynnydd unrhyw gymorth a ddarperir, swm unrhyw gymorth a ddarperir, a dibenion unrhyw gymorth a ddarperir.

Mae adran 12(1) y Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, a chaniateir iddynt gael eu harfer er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch gwirio a yw'r meini prawf cymhwysedd am gymorth wedi eu bodloni a'r canlyniadau pan nad ydynt wedi eu bodloni; ynghylch gorfodi cydymffurfedd ag amodau; ynghylch monitro i ba raddau y mae dibenion y cymorth wedi eu cyflawni; ynghylch ymchwilio i droseddau a amheuir; ac ynghylch apelau.

Bwriedir i'r pwerau hyn sicrhau bod cymorth amaethyddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei weinyddu'n briodol a bod buddiolwyr a gweinyddwyr y cymorth sydd o dan y pŵer i ddarparu cymorth yn ddarostyngedig i lefelau priodol o graffu ac atebolrwydd am roi a derbyn arian cyhoeddus.

Mae'r gofynion ar gyfer y Rheoliadau hyn yn adrannau 10(1) a 12(1) o'r Ddeddf yn ategu ei gilydd ac yn rhoi cefnogaeth bellach i swyddogaethau adrodd y Ddeddf. Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Mae'r Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru i'w cymeradwyo drwy benderfyniad, yn unol ag adran 50(6) o Ddeddf 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Pwrpas y Rheoliadau hyn yw galluogi'r rheolaethau gweithredol a gweinyddol a'r swyddogaethau gorfodi a fydd yn cael eu defnyddio i weinyddu'r holl gymorth amaethyddol yn effeithiol drwy gynllun neu fel arall, er enghraifft gan gynnwys swyddogaethau gwirio cymhwysedd am gymorth, darparu arolygiadau a mecanweithiau gorfodi lle, er enghraifft, caiff amodau o dan gynllun eu torri; ac ar gyfer darparu proses apelio, ymhlith eraill. Yn ogystal, byddant yn darparu gwybodaeth werthfawr mewn perthynas â'r fframwaith adrodd trosfwaol ar lefel cynllun cymorth yn unol ag adrannau 13 a 14 a gynhwysir yn y Ddeddf.

Dim ond ar y personau neu'r busnesau hynny sy'n gwneud cais am gymorth amaethyddol a sefydlwyd yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio ac yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn adran 8(1) o'r Ddeddf, darperir cymorth i diriogaeth Cymru yn unig, felly mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn yr egwyddor hon.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn ymwneud yn benodol â chynllun cymorth penodol ac maent yn gymwys i'r holl gymorth amaethyddol yn y dyfodol a sefydlir yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ('SFS'). Mae'n

bwysig nodi felly, bod manylion pob cymorth, cynllun neu fel arall, yn cael eu darparu yng nghanllawiau'r cynllun penodedig, er enghraifft, bydd meini prawf cymhwysedd cynllun penodol yn cael eu darparu yn nogfennau canllaw'r cynllun.

Nid yw'r Rheoliadau yn gyfyngu ar un math o gymorth neu fodel cyflawni, neu amserlen gyflenwi. Mae'n caniatáu ar gyfer gwahanol fathau o gynlluniau cymorth a phrosesau ymgeisio, megis hawliadau, ceisiadau, datgan a dilysu (tebyg i broses y Ffurflen Gais Sengl ('SAF') bresennol ac arfaethedig ar gyfer Cynllun Cyffredinol yr SFS), gan gynnwys cynlluniau cymorth a weinyddir gan ddefnyddio proses ymgeisio gystadleuol; a chymorth a ddyrennir ar sail y cyntaf i'r felin. Bydd canllaw'r cynllun dan sylw yn esbonio'n glir pob math o fodel cyflawni.

### 4.1 Canllawiau'r Cynllun

Bydd Canllawiau'r Cynllun yn nodi gofynion pob cynllun ac yn darparu set glir o gyfarwyddiadau ar yr hyn y bydd yn ofynnol i'r ceisydd / deiliad y cytundeb a Llywodraeth Cymru ei wneud. Bydd Canllawiau'r Cynllun yn nodi'r gweithdrefnau gweithredol i reoli a chynnal y cynllun cymorth dan sylw yn effeithiol, gan gynnwys gwybodaeth am ofynion y Sylfaen Reoleiddio yn erbyn cynllun cymorth (lle bo hynny'n berthnasol), a'r meini prawf cymhwysedd sy'n berthnasol i'r cynllun cymorth penodedig.

Sylfaen Reoleiddio'r SFS yw'r gofynion deddfwriaethol presennol y mae'n rhaid eu dilyn ac sy'n sail i'r cymorth a ddarperir drwy Gynllun Cyffredinol yr SFS.

Bydd holl ddogfennau Canllaw'r Cynllun ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru a byddant yn parhau i weithredu fel un pwynt cyfeirio, gan ddarparu tryloywder di-dor ar gyfer pob cymorth amaethyddol yn y dyfodol.

Bydd Canllawiau'r Cynllun yn cynnwys gwybodaeth sy'n benodol i'r cynllun, gan gynnwys gofynion manwl, megis y Cod i Bawb a gofynion y Sylfaen Reoleiddio. Bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ganllawiau ar gyfer y prosesau ymgeisio, gwirio, datgan, cymhwyso, cyfraddau talu, arolygu, beth sy'n gyfystyr â thorri amodau cymorth ac unrhyw gosbau dilynol i'w gosod yn erbyn deiliad cytundeb, yn ogystal â'r hyn y gellir / na ellir apelio yn ei erbyn, ynghyd â'r holl ddogfennau ategol a/neu ganllawiau eraill sy'n amlinellu'r prosesau perthnasol ar gyfer ymgeiswyr.

### 4.2 Gwirio cymhwysedd ar gyfer cynllun cymorth

Mae'r Rheoliad yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i wirio bod person sy’n gwneud cais am gymorth o dan gynllun cymorth yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun hwnnw.

Mae'r Rheoliad yn nodi y caiff ceisiadau am gymorth eu gwirio yn erbyn meini prawf cymhwysedd cyhoeddedig sy'n gysylltiedig â'r cynllun cymorth.

Er mwyn ofynion y cynllun barhau'n dryloyw, bydd y meini prawf cymhwysedd i'w gweld yn nogfennau Canllaw'r Cynllun.

Ar ôl derbyn cais, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio cymhwysedd y cais.

Mae ceisydd yn golygu person sy'n cwblhau ac yn cyflwyno cais am gymorth i Lywodraeth Cymru. Darperir cymorth ar yr amod bod y ceisydd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac unrhyw ofynion eraill, gan gynnwys unrhyw fecanwaith sgorio a ddefnyddir i ddarparu cymorth trwyddo a chan ddibynnu ar y gyllideb a ddyrennir o fewn cyfnod penodol. Disgrifir hyn yn y canllawiau.

Oherwydd natur y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ceir sawl fferm sy'n gweithredu ar draws y ffin, h.y. sydd â thir amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Mae Adran 8(1) y Ddeddf yn ei gwneud yn glir y gellir ond darparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy’n cael eu cynnal yng Nghymru. Felly, er y ceir ffermydd trawsffiniol, waeth ble mae adeilad y fferm, dim ond ar gyfer gweithredoedd / gweithgareddau a gynhelir ar dir Cymru y caiff y cynlluniau cymorth ddarparu cymorth ar eu cyfer.

Er mwyn gallu cyhoeddi, rheoli a monitro pob cymorth amaethyddol yn y dyfodol yn effeithiol, daw ceisiadau i law oddi wrth ddarpar ymgeiswyr am gymorth. Er mwyn i Lywodraeth Cymru allu ystyried yn effeithlon ac yn briodol a ddylid darparu'r gymorth, cynhelir gwiriadau yn erbyn meini prawf cymhwysedd sy'n benodol i'r cynllun. Er enghraifft, o dan Gynllun Cyffredinol yr SFS, un o'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth yw bod yn rhaid bod gan hawlwyr cymwys (h.y. busnes amaethyddol, sy'n cynnwys ffermwyr, perchenogion tir, rheolwyr tir, ac ati) dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru neu allu dangos mwy na 550 o oriau llafur safonol. Fel rhan o'r broses ymgeisio a dilysu hawliadau, bydd angen i Lywodraeth Cymru gadarnhau bod y ceisydd / deiliad y cytundeb yn bodloni holl ofynion cymhwysedd y cynllun.

### 4.3 Gwybodaeth ychwanegol i benderfynu cymhwysedd ar gyfer cynllun cymorth

Er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu a yw ceisydd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cynllun penodol, mae'r Rheoliad hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ofyn i'r ceisydd am wybodaeth ychwanegol, y bydd yn rhaid ei darparu o fewn unrhyw amserlen a nodir yn y cais am wybodaeth ychwanegol.

Er enghraifft, o dan yr SFS gall hyn gynnwys cadarnhad o'r tir y mae'r ceisydd wedi'i ddatgan, neu gadarnhad bod y ceisydd yn rheoli'r tir dros gyfnod o 10 mis fel sy'n ofynnol o dan Gynllun Cyffredinol yr SFS, neu brawf o denantiaeth. Yn yr achosion hyn, bydd swyddogion yn cysylltu â'r ceisydd, ac yn gofyn yn glir iddo ddarparu neu gadarnhau'r wybodaeth ychwanegol. Byddwn yn gosod dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth; gall peidio â darparu'r wybodaeth yn brydlon beryglu'r cais a / neu unrhyw daliadau a gall arwain at lai o daliad neu gosb.

Ar gyfer cynlluniau cymorth eraill, gall hyn arwain at ddiddymu cais (ar gyfer y flwyddyn honno – er nad yw'n rhwystro ceisydd rhag cael at gynlluniau cymorth eraill o fewn yr un flwyddyn neu flynyddoedd dilynol.

### 4.4 Diffygion mewn cais am gynllun cymorth

Mae'r rheoliad hwn yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru roi gwybod i geisydd, neu, yn achos Cynllun Cyffredinol yr SFS, deiliad y cytundeb (gan nodi y daw'n ddeiliad cytundeb ar ôl cyflwyno cais a chadarnhau ei fod yn derbyn telerau ac amodau'r cymorth grant) pan fydd cais (neu hawliad o dan Gynllun Cyffredinol yr SFS gan ddefnyddio proses y SAF) naill ai'n anghyflawn neu â gwall amlwg ynddo. Pan roddir hysbysiad, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i'r ceisydd gywiro cais a rhoi dyddiad cau iddo gywiro unrhyw wallau.

Pan fydd camgymeriad syml o natur glerigol wedi'i wneud mewn cais (fel SAF) neu ddatganiad, bydd swyddogion, yn ystod y gwiriadau gweinyddol, yn cywiro'r gwall, gan roi gwybod i'r ceisydd am y newid. Gallai gwallau o'r math hwn gynnwys camsillafu enwau, cyfeiriadau, neu roi rhif anghywir lle gofynnir am yr un gwerth sawl gwaith gydol y broses ymgeisio neu lle mae cofnod mewn cais neu hawliad yn anghyson â chofnodion neu wybodaeth arall sydd eisoes yn eiddo i Lywodraeth Cymru.

### 4.5 Canlyniadau ceisiadau anghyflawn neu wallus

Mae'r Rheoliad hwn yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wrthod dyfarnu cymorth i geisydd o dan gynllun cymorth o dan rai amgylchiadau, megis os na fydd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, neu os na fydd yn darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani i gefnogi cais. Neu lle ceir sail resymol i gredu bod ceisydd wedi darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn ei gais am gymorth.

Fodd bynnag, os oes amgylchiadau eithriadol, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu darparu cymorth, er gwaethaf y ffaith bod un neu ragor o'r amgylchiadau yn rheoliad 6(1) heb eu bodloni.

Mewn achosion pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â darparu cymorth, mae gan y ceisydd yr hawl i apelio o dan reoliad 29.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn ag amgylchiadau eithriadol yng nghanllawiau'r Cynllun ac yn adran 4.22.

### 4.6 Taliadau o dan gynllun cymorth

Mae'r Rheoliad hwn yn disgrifio sut y rhoddir cymorth o dan gynllun cymorth, gan gynnwys manylion pryd y dylai Gweinidogion Cymru wneud taliad a phryd na ddylent wneud taliad a pha fanylion eraill a gaiff fod yn ofynnol er mwyn gwneud y taliadau hynny.

Bydd taliadau'n cael eu gwneud i ddeiliad cytundeb drwy drosglwyddiad banc, i gyfrif banc wedi'i ddilysu, er enghraifft, ar ôl cadarnhau cwblhau gweithredoedd yn unol â'i gytundeb, neu fel yn achos taliadau a wneir o dan gynllun Cyffredinol yr SFS, gallant fod yn rhag-daliadau lle mae deiliad y cytundeb wedi ymrwymo i gwblhau'r gweithredoedd gofynnol sydd ar eu hanner, yn ogystal â'r taliadau hynny a ryddheir pan gaiff hawliad ei ddilysu yn erbyn gweithredoedd sydd wedi'u cwblhau.

Yn dilyn cais am daliad, gall Gweinidogion Cymru ofyn i ddeiliad cytundeb (gan gynnwys hawlydd o dan gynllun Cyffredinol yr SFS) am wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol i gefnogi taliadau a wneir o dan gynllun cymorth. Pan wneir cais o'r fath, bydd yn cynnwys dyddiadau cau ar gyfer darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Gall peidio â darparu'r wybodaeth mewn pryd, arwain at gosbau a / neu atal taliad. Disgrifir yn nogfennau canllaw'r cynllun yr amgylchiadau pan roddir cosb.

Pan na fydd cais wedi'i wneud i ddeiliad cytundeb ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol, bydd disgwyl iddo gyflwyno unrhyw ddatganiadau blynyddol (yn unol â chynllun Cyffredinol yr SFS) neu dystiolaeth o weithredoedd sydd wedi'u cwblhau sy'n cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio ag amodau'r cymorth, er mwyn iddo allu cael ei dalu yn unol â chytundebau cymorth.

Mae deiliaid cytundeb yn gyfrifol am sicrhau bod eu manylion banc yn ddilys a rhaid iddynt roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau i fanylion eu banc er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth roi taliadau.

## 4.7 Gwirio a monitro

Mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid cytundeb sy'n cael cymorth o dan gynllun cymorth ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth i Weinidogion Cymru y gall fod ei hangen er mwyn, er enghraifft, gwirio bod deiliad y cytundeb yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd a dilysu ei fod yn cydymffurfio ag amodau'r cynllun.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng monitro'r cymorth a ddarperir o dan gynllun a sefydlwyd yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf a'r fframwaith adrodd a gynhwysir yn y Ddeddf. Mae adrannau 13 a 14 o'r Ddeddf yn nodi dau ofyniad adrodd ar gyfer y cymorth a roddir. Mae adran 13 yn ymwneud â'r Adroddiadau Blynyddol; sef adroddiad ariannol blynyddol ar yr holl gymorth a roddir yn ystod y cyfnod adrodd. Mae Adran 14 yn cyfeirio at yr Adroddiad Effaith, sef adroddiad gwerthuso cynhwysfawr o'r cymorth a roddir dros gyfnod adrodd pum mlynedd[1]. Er mwyn bodloni'r gofynion adrodd, caiff yr holl gymorth a roddir ei fonitro i fesur effaith ac effeithiolrwydd y cymorth hwnnw, yn ogystal â sicrhau rheolaeth ariannol briodol ac effeithiol.

Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a gyflwynir gan geiswyr / deiliaid cytundeb i fonitro effaith y cymorth i roi darlun cywir o effeithiau'r cynlluniau cymorth ar draws y sector amaethyddol yng Nghymru ac o berthnasedd gweithredoedd o ran darparu'r cymorth hwnnw, ynghyd â'u cyfraniad at gyflawni amcanion SLM. Gall hyn gynnwys data a gesglir trwy arolygiadau a datganiadau neu wrth weinyddu cynlluniau a bydd gofyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a hysbysiadau preifatrwydd cynlluniau.

Un ffordd o gasglu tystiolaeth i ddilysu bod gweithred wedi'i chwblhau yw trwy ddefnyddio technoleg o bell. Er enghraifft, defnyddio technoleg lloeren, fel Earth Observation, neu ffotograffiaeth o'r awyr trwy drôn, neu fath arall o gerbyd awyr, neu drwy dechnoleg synhwyro o bell fel radar, at ddiben penderfynu a yw deiliad

[1] Mae'r cyfnod Adrodd Effaith cyntaf yn cwmpasu 17 Hydref 2023 i 31 Rhagfyr 2029.

cytundeb wedi cwblhau gweithred benodol yn unol â chytundeb ei gymorth. Er enghraifft, os oes gofyn cadw cae yn wyndwn am gyfnod penodol, gallwn gan roi rhybudd ymlaen llaw, ddefnyddio technoleg lloeren i gadarnhau'ch bod yn dal i gadw at yr amod hwnnw o'r cynllun neu i gydymffurfio â meini prawf cymhwysedd.

Byddwn yn nodi'r math o wybodaeth a thystiolaeth bydd angen ei chasglu yng Nghanllawiau'r Cynllun.

## 4.8 Cadw cofnodion

Mae cyfrifoldeb ar ddeiliad y cytundeb i sicrhau ei fod yn cynnal ac yn cadw cofnodion priodol am ei arferion amaethyddol yn unol ag amodau ei gymorth. Bydd angen iddo ddarparu copïau o'r cofnodion hynny i Weinidogion Cymru pan ofynnir iddo wneud. Mae'r gofyniad hwn yn angenrheidiol i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y cynllun, megis tystiolaeth ei fod wedi neu heb gwblhau'r gweithredoedd y mae'n cael cymorth ar eu cyfer.

Gall hyn hefyd gynnwys cadw cofnodion electronig er enghraifft, derbynebau neu ddatganiadau banc sy'n dangos tystiolaeth bod gwariant cyfalaf wedi'i ysgwyddo, lle mae cynllun cymorth wedi rhoi cymorth ariannol at wariant cyfalaf y cytunwyd arno ymlaen llaw.

Bydd gofyn i bob deiliad cytundeb gadw cofnodion cywir o'r wybodaeth a gyflwynir fel tystiolaeth ei fod wedi cydymffurfio â'r ymrwymiadau i gynnal gweithredoedd gofynnol. Er enghraifft, o dan gynllun Cyffredinol yr SFS, bydd disgwyl i ddeiliaid cytundeb gadw eu cofnodion am o leiaf 5 mlynedd, oni bai bod gofynion deddfwriaethol sy'n fwy na'r cyfnod hwn.

Gofyniad enghreifftiol yw, o dan Weithred Gyffredinol 1 o Gynllun Cyffredinol yr SFS, bod angen casglu gwybodaeth bob blwyddyn am brofion pridd. Mae hyn yn golygu y bydd gofyn i ddeiliaid cytundeb gynnal profion pridd ar o leiaf 20% o'u tir cymwys bob blwyddyn, i brofi lefelau Potasiwm (K), Ffosfforws (P), Magnesiwm (M), pH, a Deunydd Organig Pridd. Dylid profi'r holl dir perthnasol mewn cylch pum mlynedd ac adrodd y canlyniadau ar blatfform RPW Ar-lein.

Yn ogystal â gofynion y cynllun, efallai y bydd gofyn i ddeiliaid cytundeb gynnal a chadw cofnodion priodol hefyd yn unol â gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS a/neu ofynion deddfwriaethol sy'n bod eisoes, megis olrhain da byw. Rhaid i'r cofnodion hyn fodloni gofynion y rheoliadau cyfredol o ran cofrestru, adnabod, symud a niferoedd ac ati anifeiliaid. Ceir gofynion penodol o ran cadw cofnodion da byw, er enghraifft, rhaid cadw cofnodion gwartheg[2] am hyd at 10 mlynedd o ddiwedd y flwyddyn galendr y gwnaed y cofnod diwethaf. Ond dim ond am gyfnod o dair blynedd y mae gofyn cadw cofnodion defaid a geifr[3] ar ôl iddynt symud oddi ar y daliad neu ar ôl iddynt farw.

[2] Mae Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007, fel y'u diwygiwyd, yn darparu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cadw cofnodion gwartheg.

[3] Mae'r gofynion ar gyfer Defaid a Geifr yn cael eu gwneud yn orfodol gan Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

Lle ceir gofynion rheoleiddiol eisoes ar gyfer cadw cofnodion (fel y rhai a nodwyd uchod), mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at ofynion unrhyw gynllun o ran cadw cofnodion cynllun.

Efallai hefyd y bydd gofyn i ddeiliad cytundeb ddangos ei gofnodion yn ystod unrhyw arolygiadau a wneir o dan gynllun cymorth neu at ddibenion cynnal gwiriadau i gadarnhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a / neu â chynlluniau cymorth. Gall hyn gynnwys trydydd partïon sy'n cynnal arolygiadau ar ein rhan, neu yn unol â gofynion rheoleiddiol, er enghraifft, gall hyn gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwblhau arolygiadau yn unol â rheoliadau CoAP, ymhlith eraill.

Fel rhan o ddogfennau canllaw'r Cynllun (sy'n cynnwys rheolau'r cynllun) ac i sicrhau ein bod yn parhau'n dryloyw, bydd yr holl ofynion sy'n gysylltiedig â darparu cymorth yn cael eu disgrifio ynddynt; byddwn yn cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd sy'n amlinellu ein gofynion o ran cadw cofnodion.

### 4.9 Newid amgylchiadau

Rhaid i ddeiliad cytundeb roi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw newid yn ei amgylchiadau a allai effeithio ar ei hawl i gymorth, neu faint o gymorth a ddarperir o dan gynllun, ac a allai yn ogystal effeithio ar ei allu i gyflawni yn unol â meini prawf cymhwysedd a/neu weithredoedd y cynlluniau cymorth.

Gall amgylchiadau newid oherwydd newid i ddeiliad y cytundeb am resymau fel ymddeol, analluedd neu farwolaeth.

Mae'n ofynnol i ddeiliaid cytundeb sicrhau eu bod yn cadw cofnodion cywir o'u daliadau yn unol ag amodau'r cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn cael parhau i gael y cymorth hwnnw. Pan fydd deiliad cytundeb yn gwneud newidiadau i'w ddaliad, megis gwerthu / prynu'r tir neu ran ohono; bydd angen rhoi'r wybodaeth honno i Lywodraeth Cymru a'i chofnodi, a sicrhau bod unrhyw gymorth ariannol a delir yn cael ei wneud yn unol ag amodau'r cymorth. Os caiff tir ei drosglwyddo, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hynny o fewn 30 diwrnod i'r newid. Bydd hynny'n osgoi hawliadau deuol ar yr un tir o fewn ac ar draws cynlluniau cymorth, gan gynnwys gallu deiliad y cytundeb i barhau â'r cytundeb i gyflawni yn unol ag amodau'r cymorth.

Mae'r Rheoliad yn disgrifio hefyd y camau y caiff Gweinidogion Cymru eu cymryd yn hyn o beth, megis diwygio, dileu neu gyfnewid dros dro neu'n barhaol amod/amodau o'r cymorth, gan gynnwys lleihau'r cymorth ariannol a ddyfernir/a roddir, a chan ddibynnu ar y newid, gallai arwain at ostyngiad parhaol yn y dyfarniad ariannol, er enghraifft, yn sgil gwerthu unrhyw dir, fel arfer yn erbyn cynlluniau cymorth ar y tir.

Gall peidio â hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau arwain at gosbi taliadau.

Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi ystyried y camau priodol i'w cymryd yn sgil y newid yn amgylchiadau deiliad y cytundeb, byddwn yn ei hysbysu am y penderfyniad. Os yw deiliad y cytundeb yn anfodlon â'r penderfyniad hwnnw, caiff apelio drwy'r broses apelio.

## 4.10 Trosglwyddo cytundebau

Ar gyfer unrhyw newid mewn amgylchiadau a hysbyswyd ac y cytunir arno sy'n ymwneud â throsglwyddo cytundeb, gall Gweinidogion Cymru gydsynio i drosglwyddo'r cytundeb neu ran ohono i drosglwyddai, ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni.

Fodd bynnag, os yw deiliad gwreiddiol y cytundeb (e.e. gwerthwr y tir) yn torri ei rwymedigaethau o dan ei gytundeb, bydd yn parhau'n atebol am unrhyw doriadau neu broblemau mewn perthynas â'r tir hyd at y pwynt trosglwyddo.

Rhoddir rhagor o fanylion am drosglwyddo cytundebau yn nghanllawiau'r cynllun cymorth lle bo'n briodol. Er enghraifft, o dan Gynllun Cyffredinol yr SFS, ni fydd yn bosibl trosglwyddo cytundebau, gan y bydd gofyn i ddeiliaid cytundeb fodloni amodau'r cynllun bob blwyddyn.

## 4.11 Cyhoeddi data mewn perthynas â deiliaid cytundeb

Er mwyn parhau'n dryloyw ac atebol o ran defnyddio arian cyhoeddus, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth benodol am y cymorth perthnasol a ddyfernir i ddeiliaid cytundebau o dan gynlluniau perthnasol, ond dim ond os yw'r cymorth perthnasol yn cyrraedd y trothwy o £1,250 neu uwch yn y flwyddyn ariannol honno.

Os yw deiliad cytundeb yn derbyn llai na'r trothwy o £1,250 o gymorth, cedwir ei fanylion yn ddienw, gan alluogi Gweinidogion Cymru i barhau i graffu'n gyhoeddus ar gymorth, lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd drwy wefan Llywodraeth Cymru a bydd yn cael ei chadw am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi gyntaf, ac yn cynnwys gwybodaeth fel enw deiliad y cytundeb, fydd yn cynnwys enw cyntaf a chyfenw (person naturiol), teitl masnachu'r busnes (sy'n cynnwys enwau naturiol, ynghyd ag enwau busnes), y rhanbarth lle mae deiliad y cytundeb yng Nghymru a phedwar digid cyntaf ei god post (hynny i osgoi camddefnydd posibl o'r wybodaeth), ynghyd â gwerth blynyddol yr holl gymorth a ddarperir, yn ogystal â disgrifiad o'r mesurau a ariennir gan y cymorth a'u natur. Bydd unrhyw ddata a gyhoeddir yn cydymffurfio ag egwyddorion GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data.

Bydd cyhoeddi'r wybodaeth hon nid yn unig yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd am arian cyhoeddus i'r sector, bydd yn helpu hefyd unrhyw archwiliad o'r pwrs cyhoeddus at ddibenion diogelu buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru.

Pan ddefnyddir data personol, byddwn yn rhoi gwybod i wrthrych y data / deiliad y cytundeb o'i hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data ac at ba ddiben y defnyddir ei ddata. Gall hyn gynnwys prosesu archwiliadau. Rhoddir rhagor o fanylion yng nghanllawiau'r cynllun a'r hysbysiad preifatrwydd.

Dim ond o dan amgylchiadau penodol y caniateir esemptiadau o'r gronfa ddata, er enghraifft, gall gynnwys unrhyw gynllun, neu ran o gynllun a sefydlwyd at ddibenion adran 8(2)(g) o'r Ddeddf - cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau, neu adran 8(2)(m) - cyflawni a hyrwyddo safonau uchel iechyd a lles anifeiliaid, a phan fydd cyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn debygol o fod yn rhwystr i'r graddau y cyflawnir y diben hwnnw.

Nid bwriad polisi'r rheoliad hwn yw gosod gofyniad i gyhoeddi data am y cyfanswm a delir o dan adran 8 o'r Ddeddf, sef y pŵer i ddarparu cymorth (boed hynny drwy gynllun neu fel arall). Bydd yr Adroddiad Blynyddol (adran 13 o'r Ddeddf) yn darparu'r wybodaeth honno. Yn hytrach, bydd y data yn ymwneud â symiau cymorth i unigolion yn unig.

### 4.12 Cyhoeddi data cyfanredol

Mae'r Rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth gyfunol am ddeiliaid cytundebau lle nad yw eu taliadau unigol yn fwy na £1,250.

### 4.13 Arolygiadau rhithwir

Mae'r Rheoliad hwn yn galluogi personau a awdurdodir gan Weinidogion Cymru, megis Arolygwyr Arolygiaeth Wledig Cymru ("RIW"), ymhlith eraill, i gynnal arolygiadau rhithwir at ddibenion penodol, gan gynnwys gwirio bod deiliad cytundeb yn cydymffurfio ag amodau ei gytundeb, yn ogystal â monitro i ba raddau y cyflawnir diben y cymorth, adolygu neu werthuso'r gweithgareddau a gynhelir gan ddeiliad y cytundeb, neu wirio a fu achos o dorri'r Rheoliadau hyn, neu a oes toriad wedi digwydd o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall i'r graddau y mae'n berthnasol i'r cais, neu'r cais am gymorth neu'r cymorth a dderbyniwyd. Er enghraifft, o dan gynllun Cyffredinol yr SFS, mae hyn yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â Sylfaen Reoleiddio'r SFS.

Mae'n hanfodol monitro'n effeithiol yr holl gymorth a roddir er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion adrodd deddfwriaethol o dan y Ddeddf o ran Adrodd Blynyddol ac adrodd ar Effaith. Yn unol â hyn, byddwn yn disgwyl i ddeiliaid cytundeb fod wedi cwblhau gweithredoedd yn unol ag amodau eu cymorth ac i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol yn brydlon. Mae hyn yn sylfaenol i elfen fonitro'r cynllun mewn perthynas â chwblhau'r gweithredoedd a'u cyfraniad tuag at gyflawni'r dibenion y rhoddwyd cymorth ar eu cyfer.

Yn ogystal â datganiad deiliad y cytundeb ei fod yn cydymffurfio ag amodau'r cymorth, caiff hyn ei gadarnhau ymhellach drwy drefn yr arolygiadau, lle byddwn ni, neu sefydliad ar ein rhan (Awdurdodau Rheoli Cymwys), fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn cynnal arolygiadau o ganran o'r holl ddeiliaid cytundeb ar sail proses ddewis ar hap ac ar sail risg o blith trawstoriad o ddeiliaid cytundeb cynlluniau (gan gynnwys hawlwyr o dan gynllun Cyffredinol yr SFS). Gellir cwblhau'r arolygiadau naill ai'n bersonol (archwiliadau ffisegol) neu yn rhithwir neu gymysgedd o'r ddau.

### 4.14 Arolygiadau ffisegol

Mae'r Rheoliad hwn yn galluogi personau a awdurdodir gan Weinidogion Cymru i gynnal arolygiadau ffisegol at yr un dibenion â'r rheini a restrir o dan Reoliad 14 Arolygiadau Rhithwir.

Arolygiadau ffisegol yw'r arolygiadau hynny lle mae arolygydd yn ymweld yn ffisegol â thir a/neu fangre deiliad cymorth cytundeb, i asesu a phenderfynu a yw'r amodau ar gyfer cymorth yn cael neu wedi cael eu bodloni; gall hyn gynnwys cydymffurfio â'r rheoliadau.

Byddwn yn cynnal arolygiadau blynyddol i sicrhau bod deiliaid y cytundeb yn neu wedi cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan gynlluniau cymorth perthnasol a bod rheolau'r cynlluniau hynny'n parhau i gael eu bodloni.

Mae'r broses arolygu[4] yn cael ei gweinyddu gan RIW drwy systemau TG cynhwysfawr a matricsau cosb cynlluniau cymorth. Mae RIW yn gyfrifol am gynnal y drefn arolygu, ochr yn ochr ag unrhyw Awdurdodau Rheoli Cymwys neu arolygwyr rheoleiddiol eraill, er enghraifft, y rheini a sefydlwyd gan CNC o dan y rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (CoAP). Cyn cynnal arolygiad, byddwn yn cysylltu â deiliad y cytundeb i drefnu dyddiad ac amser addas ar gyfer yr arolygiad. Fodd bynnag, os nad yw deiliad y cytundeb yn caniatáu i'r arolygydd gynnal arolygiad ar y fferm neu'n ei wrthod, mae'r rheoliad hwn yn caniatáu i'r arolygydd fynd ar y fferm i gynnal arolygiad gan ddefnyddio'r broses arolygu dan rwystr. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r arolygydd hysbysu deiliad y cytundeb yn ysgrifenedig, gydag o leiaf 48 awr o rybudd, am y pwerau i arolygu gan ymgysylltu ymhellach â'r Rheoliad Pwerau Mynediad.

Er y byddwn yn hysbysu deiliad y cytundeb am arolygiad sydd yn yr arfaeth, os na fydd yn gallu cyflwyno ei hun ar gyfer yr arolygiad, byddwn yn gweithio i drefnu amser addas cyfleus gyda deiliad y cytundeb ar gyfer ei arolygu. Fodd bynnag, os bydd yn fwriadol yn rhwystro arolygiad, bydd hynny'n cychwyn y weithdrefn rhwystro, fel y nodwyd uchod.

Prin yw'r rhesymau a ganiateir dros ohirio arolygiad. Gallai amgylchiadau personol na allai deiliad y cytundeb fod wedi'u rhagweld fod yn un o'r rhesymau o'r fath, h.y. angladd, triniaeth mewn ysbyty neu salwch, neu gellir ystyried problemau sy'n codi oherwydd tywydd mawr hefyd. Ar y llaw arall, ni ddylai methiant neu anallu i grynhoi da byw arwain at ohirio'r arolygiad, gan y gall ymweliad yr arolygydd ddechrau trwy wirio cofnodion y fferm / deiliad y cytundeb.

Bydd manylion gwerth canrannol yr arolygiadau yn cael eu darparu yng nghanllawiau'r cynllun a gallai fod gwerthoedd canrannol gwahanol ar gyfer pob cynllun cymorth. Os bydd arolygiadau'r flwyddyn flaenorol yn dangos y bu cydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth sylweddol, caiff canran yr arolygiadau ei leihau neu ei gynyddu yn ôl y gofyn.

[4]Er mwyn cefnogi'r broses arolygu, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllaw hawdd ei ddeall i ffermwyr 'Pan ddaw'r Archwilydd', Caiff ei ddiweddaru a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 4.15 Pwerau mynediad

Mae'r Rheoliad hwn yn rhoi pwerau mynediad i berson awdurdodedig at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau yn unol â'r pwerau i arolygu at unrhyw un neu rai o'r dibenion a restrir yn rheoliad 17(1)(a) i (g).

Mae'r Rheoliad hwn yn ymwneud ag amheuon rhesymol bod unrhyw amod y rhoddwyd cymorth ar ei gyfer wedi'i dorri, neu unrhyw achos o dorri amodau a restrir yn Rheoliad 19, neu amheuaeth resymol bod troseddau wedi'u cyflawni o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r cymorth. Gall amheuaeth resymol gynnwys deiliad cytundeb sy'n gwrthod mynediad i arolygydd i gynnal arolygiad.

Er mwyn sbarduno'r Rheoliad hwn, rhaid bodloni un o dri amod:

a) Bod mynd ar y tir neu i'r fangre wedi ei wrthod, neu fod sail resymol dros amau y byddai'n debygol o gael ei wrthod (gall hyn gynnwys gwrthodiadau yn y gorffennol);
b) bod angen mynd ar y tir neu i'r fangre ar fyrder; neu
c) nad yw'r tir neu'r fangre wedi ei feddiannu neu ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

Os bydd angen mynd i annedd breifat fel rhan o'r drefn arolygu, rhaid i ynad heddwch roi gwarant, i'r graddau bod amheuaeth bod deiliad y cytundeb wedi bodloni amodau'r cymorth neu wedi cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio.

Rhaid i berson awdurdodedig sy'n mynd i unrhyw fangre nas feddiennir adael y fangre honno wedi ei diogelu yr un mor effeithiol ag yr oedd cyn iddo fynd iddi.

## 4.16 Pwerau arolygu

Mae Rheoliad 17 yn darparu pwerau arolygu i bersonau awdurdodedig i gynnal gweithredoedd megis arolygu tir neu fangre, marcio unrhyw anifail at ddibenion adnabod, arolygu a chopïo dogfennau neu gofnodion.

Yn ystod arolygiad, bydd gofyn i ddeiliad y cytundeb ddarparu fersiynau gwreiddiol unrhyw waith papur, gan gynnwys er enghraifft pasbortau anifeiliaid, tystiolaeth o wario gwariant cyfalaf, ac ati, gan gynnwys caniatáu i'r arolygydd wneud y canlynol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac fe'i darperir fel enghraifft):

a) Cynnal unrhyw ymholiadau, gwiriadau, arolygiadau, mesuriadau a phrofion;
b) Cymryd samplau;
c) Arolygu'r tir neu eiddo neu ran ohono p'un a yw'n cael ei ffermio neu y rhoddwyd y gorau i gynhyrchu amaethyddol arno.
d) Arolygu unrhyw dda byw, cnydau, peiriannau neu offer.
e) Marcio unrhyw anifail neu unrhyw beth arall at ddibenion ei adnabod;
f) tynnu ffotograff o unrhyw beth yn y fangre neu ei recordio ar ffurf ddigidol;

g) Symud ymaith unrhyw beth y credir yn rhesymol ei fod yn dystiolaeth o dorri rheoliad.

Bydd manylion llawn yr hyn a fydd yn cael ei arolygu yn unol â'r Rheoliad yn cael eu nodi yng Nghanllawiau'r Cynllun ar gyfer pob cynllun sy'n defnyddio'r broses arolygu.

## 4.17 Cynorthwyo person awdurdodedig

Mae'r Rheoliad yn caniatáu i bersonau awdurdodedig, wrth gynnal arolygiad rhithwir neu ffisegol, fod yng nghwmni unrhyw berson y maent yn ystyried ei fod yn angenrheidiol. Mae hyn yn cyd-fynd â bwriad y polisi i leddfu'r baich a'r effaith ar ddeiliaid cytundebau. Gan ddibynnu ar nifer yr arolygiadau y gofynnir amdanynt ar gyfer fferm, efallai y bydd cyfleoedd i fwy nag un arolygydd gynnal arolygiadau ar yr un pryd.

Er y bydd y rhan fwyaf o'r arolygiadau yn cael eu cwblhau'n fewnol, mae gofyn i arolygwyr trydydd parti gynnal arolygiadau ar ran Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, gall arolygydd neu berson awdurdodedig ofyn i ddeiliad y cytundeb gasglu, corlannu neu ddal unrhyw anifail yn ystod arolygiad.

## 4.18 Torri rheoliadau

Mae rheoliad 19 yn nodi’r amgylchiadau sy’n gyfystyr â thorri’r Rheoliadau hyn.

Gall deiliad cytundeb neu mewn rhai achosion ceisydd dorri amodau'r cymorth trwy nifer o ffyrdd, megis methu â darparu tystiolaeth bod gweithred wedi'i chynnal fel amod gofynnol o'r cymorth a gynigir; methiant i ddarparu unrhyw ddogfennau ategol i gefnogi taliad / hawliad sy'n cael ei wneud; darparu gwybodaeth ffug ynghylch cwblhau'r weithred y cynigiwyd cymorth am ei chynnal; darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar unrhyw adeg sy'n gysylltiedig â'r cymorth a gynigir; methu â hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, gan gynnwys asedau a thir; methu â galluogi arolygiadau i gael eu cynnal yn unol â'r amodau cymorth, gan gynnwys unrhyw arolygiadau rheoleiddiol gan drydydd partïon neu arolygwyr rheoleiddiol, neu rwystro arolygiad yn fwriadol

Er eglurder, o dan gynllun Cyffredinol yr SFS, daw ceisydd am y cymorth hwnnw yn ddeiliad cytundeb ar ôl iddo gwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Gais Sengl ar-lein ('SAF') a thrwy hynny dderbyn telerau ac amodau'r gymorth.

Ar gyfer pob cymorth arall, mae ceiswyr yn aros yn geiswyr nes eu bod y cael llythyr cynnig grant gan Lywodraeth Cymru a'u bod yn cadarnhau eu bod yn derbyn y cynnig gan Lywodraeth Cymru, a thrwy hynny ddod yn ddeiliaid cytundeb.

## 4.19 Ymchwilio i doriadau a throseddau a amheuir

Mae Rheoliad 20 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ymchwilio i achosion o dorri'r Rheoliadau hyn, a throseddau eraill pan fônt yn berthnasol i gael cymorth. Rhaid i unrhyw ymchwiliad fod yn gymesur â'r math o doriad a amheuir.

Gellir cynnal gwiriadau gweinyddol neu arolygiadau i ddarganfod toriadau, a rhoddir gwybod i ddeiliaid cytundebau / ceiswyr (lle bo'n briodol yn ystod y cam ymgeisio lle gofynnir am wybodaeth ychwanegol i gefnogi cais) yn ysgrifenedig lle canfyddir toriadau.

Mae RIW a CCA eraill yn cynnal arolygiadau. Mae toriadau fel arfer yn cael eu darganfod yn ystod arolygiad o dir neu fangre ceisydd / deiliad cytundeb. Fodd bynnag, gall hyn gynnwys hysbysiad gan aelod o'r cyhoedd sy'n amau bod toriad wedi digwydd neu wiriad gweinyddol sy'n datgelu anghysonderau posibl.

Pan fyddwn wedi derbyn gwybodaeth am doriad posibl, nad oedd yn rhan o'r drefn arolygu, gallwn archwilio'r daliad i weld a yw'r hysbysiad yn ddilys.

Bydd yr arolygydd yn arolygu'r fferm/ffermydd ac yn gwirio, yn ôl y gofyn, tir, cnydau, da byw a chofnodion fferm a chofnodion hysbysu'r BCMS am symudiadau gwartheg ac EIDCymru am symiadadau defaid.

Bydd yr arolygydd am weld dogfennau sy'n cefnogi'ch hawliad e.e. cytundebau rhentu ar dir pori tymhorol. Efallai y bydd yn rhaid iddynt hefyd gynnal gwiriadau ychwanegol i gael tystiolaeth bod gweithgareddau amaethyddol neu weithgareddau ategol yn cael eu cynnal. Gall y gwiriadau hyn gynnwys gwirio derbynebau ac anfonebau.

Pan ystyrir bod achos o dorri'r Rheoliadau wedi digwydd, byddwn lle bo hynny'n briodol yn hysbysu'r rheoleiddiwr o'r achos hwnnw ac am ei ddyletswydd i asesu'r achos ac ymateb yn unol â hynny; gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru, fel gweithredwr y cynlluniau cymorth, yn cael gwybod am y sefyllfa ac am unrhyw benderfyniadau a wneir gan y rheoleiddwyr, megis CNC, Awdurdodau Lleol, APHA, BCMS, ac ati.

At hynny, lle gall toriad arwain at erlyniad, byddwn yn gweithio gyda'r holl bartïon angenrheidiol i gasglu tystiolaeth am yr achos ynghyd ag unrhyw gamau y mae deiliad y cytundeb / ceisydd wedi'u cymryd i osgoi neu leihau'r risg o dorri amodau'r cymorth.

Er mwyn cynnal ymchwiliad, byddwn yn defnyddio'r pwerau arolygu yn rheoliadau 14, 15, 16 a 17, i gael mynediad i'r daliad a chynnal arolygiad, lle bydd yn ofynnol i ddeiliad y cytundeb / ceisydd ddarparu'r holl ddogfennau a thystiolaeth angenrheidiol i ddarparu darlun cyflawn o'r toriad. Gall hyn gynnwys tystiolaeth ffotograffig i brofi neu wrthbrofi unrhyw ddiffyg cydymffurfio.

### 4.20 Ymchwiliadau

Mae Rheoliad 21 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi gwybod i ddeiliad y cytundeb am ganlyniad yr ymchwiliad, a chaniatáu i'r person gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

Yn dilyn ymchwiliad i achos o dorri amodau'r cymorth, bydd 'llythyr canfyddiadau arolygiad' yn cael ei roi i ddeiliad y cytundeb yn esbonio effeithiau unrhyw doriad a welir yn yr arolygiad. Os gwelir nad oes toriad wedi digwydd, gall hynny olygu nad yw gwerth yr hawliad yn newid, neu os gwelir mân droseddau, gall arwain at lythyr cynghori yn disgrifio unrhyw gamau adfer y dylai deiliad y cytundeb eu cymryd a dyddiad pan fydd yn rhaid iddynt fod wedi ymateb, os ydynt yn dewis hynny.

Cyn gwneud penderfyniad, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan ddeiliad y cytundeb mewn ymateb i'r toriad. Yn ystod arolygiad, cofnodir hyn yn yr Hysbysiad o Ddiffyg Cydymffurfio (llythyr canfyddiadau arolygiad) a fydd yn cofnodi'r toriad a amheuir a datganiad cyntaf deiliaid y cytundeb.

Yn ystod ymchwiliad, gellir gohirio taliadau nes bod yr ymchwiliad wedi dod i ben. Pan fydd rhag-daliadau wedi'u talu cyn cynnal arolygiad, megis o dan Gynllun Cyffredinol yr SFS, gellid gohirio talu'r taliadau terfynol sy'n weddill nes bod deiliad y cytundeb wedi cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliad ynghyd ag am unrhyw arian y bydd yn rhaid ei dalu'n ôl.

Ar ddiwedd yr arolygiad ffisegol, bydd yr arolygydd yn llenwi ffurflen a fydd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r arolygiad ac yn nodi manylion unrhyw amodau fydd wedi'u torri. Gallai gwiriad gweinyddol sy'n cael ei gynnal ar ôl yr arolygiad ddangos bod amodau eraill wedi'u torri hefyd.

Yn ystod arolygiad/ymchwiliad, gofynnir i ddeiliad y cytundeb lofnodi ffurflen sy'n cydnabod bod yr arolygiad wedi'i gynnal ac sy'n nodi'n glir prif ganfyddiadau'r arolygiad at sylw deiliad y cytundeb. Gall y canfyddiadau ddangos nad oes toriad wedi digwydd neu fod toriad wedi digwydd.

Ar ôl cwblhau'r holl wiriadau gweinyddol, bydd y tîm gweinyddol yn sicrhau bod manylion yr arolygiad yn cael eu mewnbynnu i gronfa ddata gyfrifiadurol TG RPW er mwyn i'r hawliad allu cael ei ddilysu.

Os nad yw deiliad y cytundeb yn fodlon â chanlyniad yr arolygiad, caiff apelio yn erbyn y penderfyniad yn ystod y cam penderfynu, fydd wedyn yn dechrau'r broses apelio (gweler adran 4.28 ar gyfer apeliadau).

Unwaith y bydd y broses apelio wedi cychwyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried unrhyw dystiolaeth arall a ddarperir i gefnogi honiad deiliad y cytundeb bod y toriad yn anghywir neu'n anghyfiawn. Pan fydd y broses apelio wedi'i chwblhau, byddwn yn gallu cau'r ymchwiliad; a rhoi penderfyniad terfynol i ddeiliad y cytundeb.

### 4.21 Penderfyniad ar doriad

O dan Reoliad 22, rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad os ydynt wedi eu bodloni bod amod wedi'i dorri neu fod Rheoliad 19 yn gymwys, a chânt wneud penderfyniad pellach ynghylch difrifoldeb unrhyw doriad, gan nodi camau priodol, os oes rhai, a gaiff fod yn ofynnol mewn cysylltiad â’r toriad.

Cynhelir gwiriadau gweinyddol neu arolygiadau i weld a oes toriad wedi digwydd, ac os gwelir bod, rhoddir gwybod yn ysgrifenedig i ddeiliad y cytundeb. Gan ddibynnu ar y math o doriad ac amgylchiadau'r toriad, rhoddir sylw i ystyriaethau eraill wrth benderfynu ar y canlyniad.

Wrth benderfynu a oes amodau neu reoliadau wedi'u torri, gellir eu hasesu yn ôl eu difrifoldeb, maint, a hyd ac a ydynt wedi digwydd o'r blaen, ynghyd ag a oedd y toriad yn fwriadol neu'n ganlyniad i esgeulustod. Ystyrir hefyd ymddygiad deiliad y cytundeb yn y gorffennol ac a yw'n torri ei gytundeb yn rheolaidd.

Gellir cosbi'r ceisydd os bydd yn torri meini prawf cymhwysedd neu amodau'r cynllun. Fodd bynnag, efallai na fydd pob cynllun cymorth am osod cosbau am dorri amodau'r cynllun, na gosod cosbau am dorri gofynion Rheoliadau'r sector.

Disgrifir unrhyw gyfyngiadau a osodir ar allu cael cymorth yn y dyfodol yng nghanllawiau'r cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru’n asesu toriadau ar sail safonau dilysadwy sy’n cyfateb i’r amodau ar gyfer ymuno â’r cynllun. Defnyddir matrics[5] i bennu lefel y gosb. Er enghraifft, bydd safonau dilysadwy a matrics cosbau cynllun Cyffredinol yr SFS ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

### 4.22 Y camau sydd ar gael i Weinidogion Cymru yn dilyn penderfyniad ar doriad

Mae Rheoliad 23 yn pennu’r camau y caiff Gweinidogion Cymru eu cymryd pan geir penderfyniad bod toriad wedi digwydd, gan gynnwys dal cymorth yn ôl, gan gynnwys cymorth ariannol, adennill cymorth a ddyfarnwyd yn flaenorol, gwahardd person rhag cael cymorth o dan unrhyw gynllun neu roi llythyr cynghori, ymhlith pethau eraill.

Pan geir adroddiad bod amodau'r cymorth neu'r Sylfaen Reoleiddio wedi'u torri, neu os yw arolygydd yn datgelu hynny mewn ymchwiliad (a / neu os dilysir hynny wedyn gan y tîm gweinyddol), byddwn yn rhoi llythyr hysbysu i ddeiliad y cytundeb o'r hyn sy'n cefnogi'r penderfyniad ynglŷn â'r toriad. Bydd hyn yn

---

5 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-01/cross-compliance-payment-reduction-matrix-2017.pdf pdf Mae hyn yn darparu'r matrics cosbau a ddefnyddir i leihau taliadau am dorri'r Sylfaen Reoleiddio yn fwriadol a thrwy esgeulustod. Mae'n dangos y matrics cosbau a ddefnyddir o dan y Cod i Bawb a Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS, gan gynnwys cosbau mwy cymesur, fel llythyrau cynghori, ar gyfer toriadau penodol. Bydd matrics wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddarparu pan gyhoeddir canllawiau llawn y cynllun SFS cyn i'r cynllun ddechrau.

darparu gwybodaeth am fath, maint a difrifoldeb y toriad yn ogystal ag unrhyw gosbau perthnasol i'w cymhwyso.

Rydym wedi integreiddio llythyrau cynghori fel cam cyntaf (yn amodol ar natur y toriad) yn y matrics cosbau. Bydd hyn yn helpu deiliaid cytundeb i addasu i'r cymorth o dan y Ddeddf ac i wireddu ein hymrwymiad i gymesuredd wrth osod cosbau. Mae hyn yn newid i'r drefn gosbi hanesyddol, hynny er mwyn gallu bod yn fwy cymesur, lle bo hynny'n briodol.

Bydd y camau a gymerir yn erbyn deiliad cytundeb sy'n torri amodau cynllun neu'r Sylfaen Reoleiddio yn dibynnu ar y toriad a'i ddifrifoldeb a bydd yn sgorio yn erbyn y matrics cosb briodol, lle gellid gosod gostwng canran o'r taliad.

Gall toriadau fod am or-ddatgan mewn cynlluniau arwynebedd, neu yn erbyn cymorth refeniw mewn cynlluniau cymorth gwariant cyfalaf. Pan benderfynir bod amodau'r cynllun wedi'u torri a bod hynny'n ddilys, byddwn yn rhoi gwybod i ddeiliad y cytundeb am ganlyniad y toriad ac yn gosod cosb fel y'i diffinnir yn y matrics cosbau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r sector i ddatblygu matrics cosbau cymesur sy'n cynnwys llythyrau cynghori i wneud gwaith adfer i unioni achosion o fân ddiffyg cydymffurfio, lle bo'n briodol i wneud hynny.

Pan geir amgylchiad eithriadol a bod hynny'n cael ei ddilysu wedi hynny, bydd unrhyw gosb neu gyfnod gwahardd yn cael ei ddiddymu, yn amodol ar y cymal am amgylchiadau eithriadol.

O dan amgylchiadau lle na fydd deiliad y cytundeb yn unioni toriad, er enghraifft, yn yr amgylchiadau llai difrifol hynny neu lle maent yn droseddwyr ailadroddus, gellir gosod cosb ariannol. Lle ceir toriadau ailadroddus, byddwn yn ystyried hefyd atal cymorth ariannol pellach o dan gynllun cymorth, fel yr SFS, nes bod y toriadau wedi'u cywiro i ddod â nhw yn ôl i safon ofynnol naill ai'r Cynllun neu'r Sylfaen Reoleiddio.

Efallai y bydd achosion lle, er enghraifft, mae sawl deiliad cytundeb yn torri'r un amod. Bryd hynny, efallai y bydd angen adolygu'r camau y mae cynllun cymorth yn gofyn amdanyn nhw. Yn yr achosion hyn, byddwn yn rhoi gwybod i ddeiliaid y cytundeb am unrhyw newidiadau i amodau'r cymorth ac yn diweddaru telerau'r cytundeb. Gall hyn fod naill ai'n newid dros dro neu'n un parhaol, er enghraifft, os yw'r toriad oherwydd ffactorau y tu allan i reolaeth deiliaid y cytundeb megis tywydd anaddas i gefnogi'r cyfnod a neilltuir ar gyfer torri perthi/gwrychoedd.

Os bydd deiliad cytundeb yn cyflwyno hawliad twyllodrus, gellir ei wahardd rhag gwneud cais am gymorth a / neu dderbyn cymorth gan unrhyw gynllun cymorth arall dros gyfnod penodol, e.e. hyd at ddwy flynedd a gall hefyd arwain at derfynu ei gytundeb.

### 4.23 Amgylchiadau eithriadol ar gyfer toriad

Mae'r Rheoliad hwn yn darparu bod amgylchiadau eithriadol yn gallu bod yn berthnasol mewn senarios penodol sy'n gysylltiedig â thorri amodau'r cymorth ac wrth wneud hynny, mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddewis peidio â

chymryd unrhyw un o'r camau a nodir o dan Reoliad 23 pan fydd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Ar gyfer pob cynllun cymorth, byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth fanwl am unrhyw eithriadau a allai fod yn berthnasol i gynllun cymorth penodol, yng Nghanllawiau'r Cynllun. Er enghraifft, eithriadau i hawliadau hwyr, cyflwyno ceisiadau'n hwyr, peidio â bodloni gofynion cymhwysedd y cynllun o ran bod y tir ar gael gydol y flwyddyn galendr, neu methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau Sylfaen Reoleiddio'r SFS, ac ati.

Gall amgylchiadau eithriadol fod yn berthnasol pan fydd deiliad y cytundeb wedi'i atal rhag cyflawni ei rwymedigaethau mewn ffordd sy'n gyson ag amodau'r cymorth. Yr amgylchiadau anarferol hynny, sydd y tu hwnt i reolaeth y ffermwr, na fyddai'r ffermwr er gwaethaf pob gofal wedi gallu osgoi eu canlyniadau heb aberth ormodol.

Darperir enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol yng nghanllawiau'r cynllun. Yn yr achosion penodol hyn, bydd deiliad y cytundeb yn cadw ei hawl i gymorth ariannol mewn perthynas â'r ardal ar yr adeg pan ddigwyddodd yr amgylchiadau eithriadol, ac efallai na fydd gofyn gosod cosbau a/neu adennill taliadau blaenorol.

Er enghraifft, pan fydd deiliad cytundeb o dan gynllun Cyffredinol yr SFS yn hwyr yn cyflwyno ei SAF flynyddol a bod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am amgylchiad eithriadol ac wedi'u dilysu, ni fydd ei daliadau'n cael eu cosbi am iddo hawlio'n hwyr.

### 4.24 Hysbysu am y penderfyniad ar y toriad

Mae Rheoliad 25 yn nodi dyletswydd Gweinidogion Cymru i hysbysu deiliaid cytundeb am unrhyw benderfyniad a wneir o dan Reoliad 22 ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad a'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw o dan Reoliad 29.

### 4.25 Gwybodaeth bellach am unioni toriad

Mae'r Rheoliad yn galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu deiliad y cytundeb i unioni toriad yn unol â Rheoliad 23(d) ac wrth wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru bennu cyfnod y mae'n rhaid cywiro'r toriad ynddo a gallant (mewn ffordd sy'n briodol i'r toriad) atal cymorth nes eu bod yn fodlon bod y toriad wedi'i gywiro.

Ar gyfer toriadau i reoliadau, mae'r safonau dilysadwy a'r Sylfaen Reoleiddio'n help ar gyfer penderfynu sut y gellir neu na ellir cywiro toriad a bydd angen eu hystyried fel rhan o'r broses benderfynu, yn enwedig ynghylch a oes modd cywiro toriad parhaol difrifol.

Os na fydd deiliad cytundeb wedi cywiro'r toriad yn foddhaol, rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad newydd o dan Reoliad 22(2), ynghylch difrifoldeb a natur y toriad, ymhlith ystyriaethau eraill.

## 4.26 Gwybodaeth bellach am adennill cymorth

Mae Rheoliad hwn yn darparu gwybodaeth bellach am rai o’r camau y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol eu cymryd o dan Reoliad 23.

Pan fydd deiliad cytundeb wedi gwneud toriad, un cam sydd ar gael yw adennill unrhyw daliadau sydd eisoes wedi'u rhoi iddo. Er enghraifft, gwelir mewn arolygiad nad yw deiliad y cytundeb wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol y mae taliad yn cael ei dalu iddo i'w cymryd. A bod wedi hynny, penderfyniad yn cael ei wneud bod yn rhaid i ddeiliad y cytundeb ad-dalu unrhyw arian sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru, ynghyd â chosb ganrannol. Caiff matrics cosb, lle bo'n berthnasol i gynllun cymorth, yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â chanllawiau'r cynllun.

Pan benderfynir bod angen adennill cymorth ariannol, byddwn yn rhoi gwybod i ddeiliad y cytundeb am werth yr arian sy'n cael ei adennill, ynghyd â dyddiad pryd y bydd yn rhaid iddo sicrhau bod y taliad llawn yn cael ei wneud. Ni fydd pob cymorth yn codi llog ar ddyled, felly rhoddir gwybod a fydd angen talu llog, cyfradd y llog, tros ba gyfnod y gall y llog hwnnw fod yn daladwy ac os oes unrhyw ddyled heb ei thalu, sut mae pennu'r adlog ar y gweddill sy'n ddyledus nes ei glirio.

Hefyd, os na fydd deiliad y cytundeb yn gallu ad-dalu'r swm llawn a bod ganddo hawl i ragor o gymorth o dan gynllun cymorth, gellir atal taliadau o gynlluniau cymorth eraill (a sefydlwyd o dan y Ddeddf) nes bod y ddyled / taliad yn cael ei glirio. Nid cheir rhyng-gipio taliadau deiliad y cytundeb o daliadau eraill Llywodraeth Cymru, na thaliadau'r cynllun Iawndal TB, ar sail natur y taliadau'r cynllun Iawndal TB.

Lle bo'n berthnasol, gellir codi llog ar ddyledion. Mesurir y llog gan ddefnyddio cyfradd sylfaenol Banc Lloegr ac ychwanegu 1%. O ran talu dyledion, clirir y llog yn gyntaf, ac yna telir y ddyled sydd wedi cronni.

## 4.27 Gwybodaeth bellach am wahardd cymorth

Mae'r Rheoliad hwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y camau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan Reoliad 23.

O dan rai amgylchiadau lle mae deiliad y cytundeb yn torri'r Sylfaen Reoleiddio neu'r amodau cymorth yn barhaus dros gyfnod (fel arfer dros nifer o flynyddoedd), efallai y bydd angen ei wahardd rhag cael rhagor o gymorth ariannol am gyfnod penodol o amser ond heb fod yn fwy na dwy flynedd. Gwneir hyn yn achos y troseddau mwyaf difrifol hynny lle mae'r difrifoldeb a'r effaith uchaf, neu lle mae deiliad cytundeb wedi torri amodau'r cymorth yn barhaus.

Mae'r gwaharddiad o hyd at ddwy flynedd yn berthnasol i'r holl gymorth a roddir yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf.

### 4.28 Apelau

Mae'r Rheoliad hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer apelau i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniadau penodol o dan y Rheoliadau hyn.

Mae'n sefydlu proses apelio dau gam, lle caniateir gwneud apelau i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad a wneir o dan Reoliad 6(2) (penderfyniadau mewn perthynas ag amgylchiadau eithriadol ar gyfer ceisiadau anghyflawn neu wallus), 10(3) (penderfyniadau a wneir mewn perthynas â newid mewn amgylchiadau) neu 25 (penderfyniadau a wneir mewn perthynas â thoriadau) am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

- yr oedd y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;
- yr oedd y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;
- mae gwall gweithdrefnol sylweddol wedi digwydd.

Ar gyfer apêl cam un, rhaid i'r apelydd ysgrifennu at Weinidogion Cymru, gan nodi'r rhesymau dros yr apêl ynghyd â thystiolaeth ategol a rhaid iddi ddod i law Gweinidogion Cymru o fewn 60 diwrnod ar ôl rhoi gwybod i'r apelydd am y penderfyniad.

Mae'r Rheoliad yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi gwybod i'r apelydd am ganlyniad yr apêl cam un. Os nad yw'r apelydd yn fodlon â'r canlyniad, caiff symud ymlaen i gam dau y broses apelio, ond rhaid gwneud hynny o fewn 60 diwrnod ar ôl rhoi gwybod iddo am ganlyniad cam un.

Mae'r ail gam yn cynnwys trafodaeth y Panel Apeliadau Annibynnol ac yn cynnwys unrhyw ffi i'w thalu i'r Panel Apeliadau Annibynnol. Bydd canllawiau'r cynllun yn darparu rhagor o wybodaeth am y ffioedd sy'n gysylltiedig â gwrandawiadau llafar neu ysgrifenedig ac yn rhoi mwy o fanylion am y broses apelio. Ar ôl i'r panel annibynnol drafod, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad terfynol ar yr apêl, gan roi gwybod i'r apelydd yn ysgrifenedig am y penderfyniad ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad.

## 5 Ymgynghori

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n helaeth ers 2017, ar bennu ei blaenoriaethau i sicrhau ffyniant Cymru yn y dyfodol ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn ein hymgynghoriad 'Diogelu DyfodolCymru'[6]. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ystod o opsiynau ar gyfer cyflawni SLM, darparu cymorth i ffermydd ar ôl gadael yr UE a diwygio amaethyddiaeth.

[6]Diogelu dyfodol Cymru | LLYW.CYMRU

Mae Brexit a'n Tir (BaOL)[7] a Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (SFaOL)[8] sy'n nodi amcanion y polisi ac yn arolwg o'r diwydiant ffermio, yn edrych ar heriau a wynebir a'r cyfleoedd i ddiwygio wrth ddiogelu dyfodol ffermio yng Nghymru.

Mae Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru)[9] yn adeiladu ar y cynigion hyn ac yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("y Ddeddf"), un o ddiwygiadau mwyaf uchelgeisiol ac arwyddocaol y sector yn ein hoes, gyda'r nod o chwyldroi ein diwydiant ffermio er mwyn gwireddu ein gweledigaeth o Gymru gynaliadwy, ffyniannus a gwyrddach.

Mae canlyniadau manwl yr ymgynghoriadau hyn ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ym Memorandwm Esboniadol y Ddeddf ym mharagraffau 4.2 i 4.55[10].

Ochr yn ochr â chyflwyno'r Ddeddf ym mis Awst 2023, fydd yn galluogi darparu cymorth i'r sector yn y dyfodol ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n digwydd yng Nghymru, datblygodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), gan gyhoeddi ac ymgynghori ar gynnig amlinellol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Yn Cefnogi Ffermwyr yn Ffermio[11].

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Yn Cefnogi Ffermwyr i Ffermio (llyw.cymru)

Yr ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cadw ffermwyr yn ffermio oedd y trydydd ymarfer ymgynghori ffurfiol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r SFS, gan nodi cynigion:

i. sut y bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am weithredoedd sy'n gyson â'r Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, a gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol.

ii. y cymorth a fydd ar gael i gymryd y camau hyn a chyflawni amcanion SLM.

iii. y gofynion Deddfwriaethol ar gyfer gweithredu a gweinyddu cynlluniau cymorth, megis yr SFS.

Parodd yr ymgynghoriad am ddeuddeg wythnos gan ddod i ben ar 07 Mawrth 2024.

[7] Cymorth i ffermwyr Cymru ar ôl Brexit | LLYW.CYMRU
[8] Cynigion diwygiedig ar gyfer cefnogi ffermwyr Cymru ar ôl Brexit | LLYW.CYMRU
9. Bil Amaethyddiaeth (Cymru)
[10] Mae Pennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, yn darparu dadansoddiad o'r ymgynghoriadau a'u hymatebion.
[11] Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Yn cefnogi ffermwyr i ffermio.

Ceir dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. [12]

Gwnaeth llawer o'r cyhoedd ymateb i'r ymgynghoriad, gyda chyfanswm o 12,108 o ymatebion yn dod i law - 3,757 o ymatebion gan unigolion, 386 o ymatebion gan sefydliadau, 7,885 o ymatebion drwy saith ymgyrch ac 80 o ymatebion a ddaeth i law dros e-bost. Roedd 73% o'r ymatebion gan unigolion o'r sector[13] ffermio.

Mynegwyd ystod eang o safbwyntiau mewn ymateb i'r ymgynghoriad; cefnogol a gwrthwynebus.

Mynegwyd y gwrthwynebiad cryfaf yn yr ymatebion i'r cynigion ar gyfer Gweithredoedd Cyffredinol a'r newidiadau i'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn ystod y cyfnod pontio i'r SFS. Roedd y gwrthwynebiad yn amlwg yn ymatebion y sector ffermio. Fodd bynnag, nid oedd pawb yn wrthwynebus. Roedd y sector amgylcheddol a'r trydydd sector yn fwy cefnogol i'r cynigion, ynghyd â lleiafrif o ffermwyr oedd yn gefnogol i weithredoedd o blaid mwy o gynaliadwyedd amgylcheddol.

Ar y cyfan, roedd consenswS y gymuned ffermio i'r ymgynghoriad yn anffafriol, gan arwain at brotest eang ar risiau'r Senedd ar 28 Chwefror 2024. Mae'r anfodlonrwydd yn deillio o'r gofynion amgylcheddol a fyddai'n ofynnol ar ffermwyr yng Nghymru a chyhoeddi effeithiau economaidd yr adroddiad[14] ar Ganlyniadau Modelu Gweithredoedd Cyffredinol Cam 4 y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a wnaeth i ffermwyr ragweld y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn gwneud y cynllun cymorth ffermio newydd yn anghynaliadwy i'w busnesau.

Yn dilyn dadansoddiad o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ar 14 Mai 2024[15] cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig y byddai'n gohirio lansio'r SFS am 12 mis, er mwyn adolygu'r cynigion a thrafod â'r sector, cyrff cysylltiedig ac undebau. Y nod oedd datblygu atebion ymarferol i helpu ffermwyr i barhau i ffermio, gan fod yn ymwybodol yr un pryd o effaith amgylcheddol y sector a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynllun sy'n cefnogi diwydiant amaethyddol cynaliadwy a gwydn yng Nghymru.

Ers y Datganiad Gweinidogol ar 14 Mai 2024, ac yn dilyn trafodaethau helaeth gydag undebau a chynrychiolwyr y sector ffermio a'r amgylchedd, cafwyd dau gyhoeddiad arall ynglŷn â'r SFS. Ar 24 Tachwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy: amlinelliad o'r cynllun (2024)'[16], ac ar 15 Gorffennaf 2025 cyhoeddwyd y cynllun terfynol, 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: Disgrifiad o'r Cynllun'[17].

---

[12] Sustainable Farming Scheme: consultation analysis report

[13] Derbyniwyd 3,757 o ymatebion gan unigolion gyda 3,294 o ymatebion yn y fformat safonol gan ddefnyddio ffurflen ymateb yr ymgynghoriad a chyflwynwyd 463 yn fformatau'r ymatebwyr eu hunain. Nodwyd bod 73% o'r 3,294 o ymatebion 'safonol' yn dod o'r sector ffermio.

[14] Effeithiau economaidd posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Canlyniadau Modelu Gweithredoedd Cyffredinol Cam 4

[15] Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Ffermio yng Nghymru (14 Mai 2024).

[16] Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: amlinelliad o'r cynllun (2024) [HTML] | LLYW.CYMRU

[17] Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o’r cynllun [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae'r gofynion rheoleiddio wedi'u disgrifio yn yr ymgynghoriadau hyn a chyhoeddiadau SFS fel gofynion cyfreithiol sy'n galluogi rheolaethau gweithredol a gweinyddol, megis arolygiadau a gorfodi, ar gyfer cynlluniau cymorth amaethyddol yn y dyfodol.

Mae'r adborth o'r ymgynghoriadau wedi llywio datblygiad y Rheoliadau hyn i ddarparu eglurder yn y gyfraith a lleihau biwrocratiaeth, lle bo'n berthnasol.

Yn ogystal, rydym wedi cydymffurfio â'r gofyniad i ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Erthygl 36(4) o GDPR y DU, er mwyn prosesu gwybodaeth, yn unol a'r Rheoliadau hyn.

## 6 Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Mae Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025 yn cyflwyno'r fframwaith rheolaethau a gorfodi ar gyfer yr holl gymorth amaethyddol a ddarperir o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Nid yw'r Rheoliad yn cyfyngu ar bwy sy'n gymwys i gael cymorth, dim ond bod yn rhaid i'r rhai sy'n gymwys fodloni meini prawf ac amodau cymhwysedd cynllun i elwa ar yr hyn a gynigir gan gynllun, ynghyd â rheolaethau a mesurau parhaus i gefnogi'r gwaith o gynnal cynlluniau cymorth. Felly, mae RIA llawn wedi'i gynnal.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL (RIA)

### Diben

Mae gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") bwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth i'r sector, ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n digwydd yng Nghymru, yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf honno. Mae'r Ddeddf yn darparu rhestr o ddibenion y gellir darparu cymorth ar eu cyfer, ac nid yw'r rhestr honno'n gynhwysfawr.

Er mwyn gweithredu a gweinyddu cynllun cymorth amaethyddol yn effeithiol, mae angen prosesau monitro, rheoli a gorfodi. Yn unol ag adran 10 ac adran 12 o'r Ddeddf, mae angen rheoliadau er mwyn bodloni'r gofynion hyn i sicrhau bod yr holl gymorth yn y dyfodol a sefydlir yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf yn cael ei weithredu a'i weinyddu'n effeithiol.

Mae'r gofynion ar gyfer y pwerau rheoleiddio yn adrannau 10 a 12 o'r Ddeddf yn ategu ei gilydd ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

<u>Adran 10:</u>

Mae adran 10 y Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth benodedig (fel a bennir yn y rheoliadau) am gymorth sy'n cael neu sydd wedi cael ei ddarparu o dan adran 8. Gall yr wybodaeth y gall y rheoliadau ei phennu gynnwys gwybodaeth am:

- y sawl sy'n cael y cymorth a ddarperir,
- swm y cymorth a ddarperir, a
- dibenion unrhyw gymorth a ddarperir.

<u>Adran 12:</u>

Mae adran 12 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru y gellir eu harfer i wneud darpariaeth ynghylch:

- gwirio a yw'r meini prawf cymhwysedd am gymorth yn cael eu bodloni;
- y canlyniadau pan fydd cymorth wedi ei ddarparu heb i feini prawf cymhwysedd gael eu bodloni;
- gorfodi cydymffurfedd ag unrhyw amodau y mae'r cymorth yn cael neu wedi cael ei ddarparu yn ddarostyngedig iddynt;
- monitro i ba raddau y mae pwrpas y cymorth wedi ei gyflawni;
- ymchwilio i droseddau a amheuir mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth neu â darparu cymorth.

Caiff y Rheoliad gynnwys darpariaeth hefyd ar:

I. ddarparu gwybodaeth;
II. rhoi pwerau mynediad;
III. rhoi pwerau arolygu, chwilio ac atafaelu;

IV. y broses o bennu a yw meini prawf cymhwysedd neu amodau wedi eu bodloni mewn cysylltiad â darparu’r cymorth;
V. cadw cofnodion;
VI. adennill neu ddigolledu'r holl gymorth ariannol neu unrhyw ran ohono (gyda llog neu hebddo);
VII. dal cymorth yn ôl, yn gyfan gwbl neu’n rhannol;
VIII. y camau i’w cymryd, gan berson y darperir neu y darparwyd cymorth iddo, er mwyn unioni unrhyw amod a dorrir sy’n gymwys i’r cymorth hwnnw;
IX. cosbau ariannol (gan gynnwys cosbau a gyfrifir drwy gyfeirio at swm unrhyw gymorth ariannol);
X. adennill symiau sy’n ddyledus mewn cysylltiad â chosbau ariannol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llog, gosod symiau yn erbyn symiau eraill, a sicrhad ar gyfer taliad;
XI. gwahardd person rhag cael cymorth, neu gymorth o ddisgrifiad a bennir, am gyfnod a bennir neu hyd nes i amodau a bennir gael eu bodloni;
XII. apeliadau;
XIII. rhoi swyddogaethau (gan gynnwys swyddogaethau sy’n ymwneud ag arfer disgresiwn) i berson.

Bwriad y pwerau hyn yw sicrhau bod cymorth amaethyddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei weinyddu'n gywir, gyda'r rheolaethau a'r mecanweithiau gorfodi priodol. Y bwriad yw sicrhau hefyd bod derbynwyr y cymorth hwnnw yn yr un modd yn ysgwyddo atebolrwydd priodol wrth ardystio bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol ag amodau cynllun cymorth. Er enghraifft, pan na fydd deiliad cytundeb wedi cydymffurfio â'i gytundeb, bod camau priodol yn cael eu cymryd i unioni unrhyw fethiannau, boed trwy gyhoeddi hysbysiadau cynghori a / neu nodi'r camau i'w cymryd i unioni'r amodau a dorrir, a gall gynnwys unrhyw gosb ariannol briodol y gellir ei gosod.

Er nad yw'r Rheoliadau yn nodi pa gosbau y dylid eu gosod o dan gynllun cymorth, maent yn caniatáu i gosbau gael eu gosod pan fydd deiliad cytundeb wedi torri (heb fodloni) amodau ei gytundeb.

Bydd y Rheoliadau ar gyfer y fframwaith rheolaethau a gorfodi yn cefnogi pob cynllun sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, megis cynlluniau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), gan gynnwys cymorth arall yn y dyfodol sydd eto i'w ddatblygu. O ganlyniad, mae'n anodd mesur a rhagweld y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r fframwaith rheolaethau a gorfodi, gan mai nhw fydd y swyddogaethau sy'n galluogi'r cynlluniau cymorth. Am hynny, cawn wybod y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Rheoliadau wrth roi'r SFS ar waith, sef y prif fecanwaith gweithredol ar gyfer darparu cymorth sy'n cyd-fynd ag amcanion SLM. Mae disgwyl i'r cynllun gael ei lansio ym mis Ionawr 2026 a bydd yn cael ei gyflwyno fesul cam ac yn esblygu dros amser. Cynhelir yr esblygiad hwn drwy'r gofynion gwerthuso ac adrodd a sefydlwyd yn y Ddeddf, megis yr Adroddiad Effaith 5 mlynedd[18].

[18] Mae'r Adroddiad Effaith yn adroddiad monitro a gwerthuso i sicrhau bod asesiad cadarn yn cael ei gynnal ar lefel cynllun o'i weithredoedd a bod y cynllun cyfan yn cael ei werthuso. Mae rhagor o wybodaeth am yr Adroddiad Effaith ar gael ym Memorandwm Esboniadol y Ddeddf paragraffau 3.159- 3.172 [agriculture-wales-act-2023-explanatory-memorandum.pdf]

**MASP (Cynllun Cymorth Amlflynyddol) (Adran 11):**

Mae'r Ddeddf yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i roi sicrwydd a thryloywder i'r sector amaethyddol fod gan Lywodraeth Cymru gynllun neu gyfres o weithgareddau i gefnogi'r sector yn y dyfodol yn eu lle, a fydd yn cael eu cyflwyno yn unol ag adran 8 (pŵer i ddarparu cymorth). Dyma'r Cynllun Cymorth Amlflynyddol (MASP).

Mae'r MASP yn flaengynllun 5 mlynedd (o leiaf) o gynlluniau cymorth sy'n weithredol neu y bwriedir iddynt ddod yn weithredol o fewn cyfnod y cynllun. Dechreuodd y cyfnod cyntaf ar 1 Ionawr 2025 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod pontio hyd at 2029[19].

**Canllawiau'r Cynllun**

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar gyfer y cynllun llawn fydd yn cyd-fynd â'r fframwaith rheolaethau a gorfodi ar gyfer cynllun(iau) cymorth a ddarperir o dan y Ddeddf. Mae canllawiau wrthi'n cael eu paratoi ar gyfer cyflwyno'r SFS Cyffredinol cyn lansio'r cynllun ar 1 Ionawr 2026. Caiff canllawiau pellach eu cyhoeddi ar gyfer cymorth Opsiynol a Chydweithredol yr SFS maes o law.

**Rheoliadau a gyflwynwyd ochr yn ochr â Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddiaeth (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025**

Mae'n bwysig nodi, ochr yn ochr â chyflwyno'r Rheoliadau hyn, bod dau Reoliad arall yn cael eu cyflwyno, sef Rheoliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (Tapro Hawliau Taliadau a Chau) (Cymru) 2025 a Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2025.

Ar gyfer pob un o'r Rheoliadau uchod, mae RIA's wedi'u cwblhau ar eu heffeithiau, eu costau a'u manteision. Er enghraifft, mae Rheoliad Tapro'r BPS wedi nodi'r costau sy'n gysylltiedig â thapro'r BPS yn unol â gwerthoedd canrannol amrywiol. Mae'r Rheoliad diwygio Apelau yn cynnwys manylion yr opsiynau ar gyfer diwygio'r ffi apelio, ynghyd ag effaith ragweledig y ffi. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod un broses apelio yn aros ar gyfer pob cynllun cymorth amaethyddol presennol ac arfaethedig.

## 7 Yr opsiynau

Bydd angen bod gan yr holl gymorth amaethyddol a ddarperir yn unol â'r Ddeddf fframwaith rheolaethau a gorfodi sy'n diogelu arian cyhoeddus a neilltuir at y dibenion y bwriadwyd yr arian ar ei gyfer, gan roi ar yr un pryd sail gyfreithiol glir y bydd gofyn i Lywodraeth Cymru a derbynwyr cymorth amaethyddol gadw ati.

---

[19] Cynllun Cymorth Amlflwydd Amaethyddiaeth Mae'r MASP Cyntaf yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a ragnodir yn adran 11 o Ddeddf 2023, ac mae'n cynnwys cymorth, gweithredol ac arfaethedig, ar gyfer y cyfnod pontio.

Mae'n gosod y sail gyfreithlon ar gyfer, er enghraifft, cynnal (neu orfodi) arolygiadau o ddeiliad cytundeb i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â thelerau ei gytundeb cymorth. Mae'n nodi ymhellach, pan welir bod toriad wedi'i wneud, yr ymchwilir iddo a bod gan ddeiliad y cytundeb yr hawl i ymateb i'r toriad a amheuir ac apelio yn erbyn rhai penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Y Rheoliad i bob pwrpas fydd yn pontio'r bwlch rhwng yr hyn a gyflwynir ar hyn o bryd yn y Ddeddf a rheolau'r cynllun, gan gynnwys ymhlith eraill meini prawf cymhwysedd, monitro, cydymffurfio a gorfodi ac ati.

Ystyriwyd tri opsiwn ar gyfer y gofyniad deddfwriaethol hwn:

**Opsiwn 1**: (a ffefrir) Rheoliad cyffredinol.

Ymdrin â'r Rheoliad ar gyfer y prosesau rheoli a gorfodi mewn ffordd gyffredinol (heb fod yn benodol i un cynllun). Bydd hynny'n cefnogi cynnal y cynlluniau cymorth a sefydlir o dan y pŵer yn y Ddeddf i ddarparu cymorth.

Bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod y sail gyfreithiol i gynlluniau cymorth allu gweinyddu, monitro a gorfodi cydymffurfiaeth.

Bydd y Rheoliadau yn gymwys i bob cynllun cymorth amaethyddol heb enwi unrhyw gynllun cymorth penodol, gan gynnwys yr SFS, gan sicrhau bod y Rheoliad yn nodi anghenion cynlluniau cymorth amaethyddol cyfredol ac yn y dyfodol sydd wedi'u sefydlu ac wedi'u cynnig i'w gweithredu o dan adran 8 o'r Ddeddf.

Bydd pob cynllun cymorth sy'n gweithredu o dan bwerau adran 8 y Ddeddf yn defnyddio'r un pŵer rheoleiddio i weithredu a gweinyddu swyddogaethau'r Rheoliadau. Bydd y Rheoliad yn amlinellu'r amodau sydd, er enghraifft, yn gyfystyr â thorri cytundeb a'r camau sydd ar gael i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r toriad hwnnw, megis galluogi deiliad cytundeb i unioni'r toriad o fewn amserlen benodedig, a/neu osod cosb. Bydd manylion y cosbau posibl a osodir am y toriadau hynny yn cael eu disgrifio yng Nghanllawiau'r Cynllun (fel y nodwyd uchod).

**Opsiwn 2**: Rheoliadau pwrpasol fesul Cynllun Cymorth.

Datblygu is-ddeddfwriaeth bwrpasol ar gyfer pob cynllun cymorth a sefydlir yn unol ag adran 8 (pŵer i ddarparu cymorth).

Mae manteision yr opsiwn hwn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sy'n ateb holl ofynion pob cynllun ac o bosibl yn lleihau lefel y manylion sydd eu hangen yn nogfennau ategol cynllun. Fodd bynnag, yr anfantais yw y bydd angen paratoi Rheoliad newydd ar gyfer pob cynllun cymorth. Mae'r opsiwn hwn yn or-feichus ac yn rhy fiwrocrataidd i gyfrif am y cynlluniau cymorth arfaethedig.

**Opsiwn 3**: Rheoliadau Hybrid sy'n enwi rhai Cynlluniau Cymorth.

Hybrid o opsiynau un a dau. Defnyddio'r dull cyffredinol, ond hefyd enwi rhai cynlluniau cymorth o fewn y pŵer rheoleiddio, megis, SFS, ond nid eraill (felly galluogi ar gyfer rhywfaint i'r dyfodol).

Y rheswm dros beidio â bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn yw nad ystyrir bod unrhyw gynlluniau cymorth eraill heblaw am yr SFS (cyffredinol, opsiynol a chydweithredol) yn barod ar gyfer darparu cymorth i'r sector, er enghraifft, gwyddom y bydd y cynlluniau presennol ar gyfer paratoi ar gyfer yr SFS yn dal i weithredu o dan Gyfraith gymhathu'r UE tan ddiwedd 2026/27 neu tan eu cau.

Un o anfanteision enwi cynlluniau cymorth yw y bydd angen diwygio'r Rheoliadau i sicrhau ei fod yn gyfredol, gan gynnwys dileu unrhyw gyfeiriadau at enwau hen gynlluniau nad ydynt bellach ar gael i'r sector.

## 8 Costau a manteision

Mae'r gost a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad i'w priodoli i weithredu, gweinyddu a darparu cymorth yn y dyfodol, fel yr SFS. Mae achos busnes manwl ar yr SFS wedi'i gyhoeddi, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â'i weithredu a'i ddarparu dros y cyfnod pontio i 2029/30. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Achos Busnes[20]Llawn yr SFS sy'n cynnwys y dadleuon economaidd, strategol, masnachol, ariannol a rheoli sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflwyno'r SFS a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2025.

Y Rheoliadau sy'n galluogi swyddogaethau'r cymorth, a fydd yn darparu'r fframwaith rheolaethau ar gyfer darparu'r SFS, fel y prif gynllun cymorth i roi prosesau'r rheoliadau ar waith.

Wrth ystyried y costau, rhoddwyd yr holl dystiolaeth[21] i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, iddo allu penderfynu ar yr SFS a'i chymharu â'r drefn gymorth amaethyddol bresennol. Mae'r sylfaen dystiolaeth lawn yn cynnwys yr Achos Busnes Llawn (gydag amcangyfrif o gost a manteision yr SFS o'u cymharu â chostau a manteision y drefn gymorth bresennol), asesiad effaith integredig llawn ac asesiad economaidd o amcangyfrif o'r effaith ar 15,555 o fusnesau fferm llawn amser a rhan-amser, gan gynnwys amcangyfrif o'r costau a hefyd amcangyfrif o'r effaith gyffredinol ar incwm busnesau fferm. Nid yw'r costau hynny wedi'u cynnwys yn yr RIA hwn, ond gellir eu gweld ar-lein (gweler troednodyn 4 am y ddolen).

[20]Cynllun Ffermio Cynaliadwy: achos busnes llawn gydag atodiadau Cyhoeddwyd Achos Busnes Llawn yr SFS ar 30 Medi 2025, cyn lansio cynllun Cyffredinol yr SFS ar 1 Ionawr 2026.

[21] Mae'r sylfaen dystiolaeth lawn a ddefnyddir i gefnogi'r SFS arfaethedig yn cynnwys yr Achos Busnes Llawn (gydag amcangyfrif o gostau a manteision yr SFS o'u cymharu â chostau a manteision y drefn gymorth amaethyddol bresennol (BPS, RIS ac ati), asesiad effaith integredig llawn, ac asesiad economaidd o amcangyfrif o'r effaith ar 15,555 o fusnesau fferm llawn amser a rhan-amser, hefyd gan gynnwys hefyd amcangyfrif o gostau ac amcangyfrif a'r effaith gyffredinol ar incwm busnesau fferm. Cynllun Ffermio Cynaliadwy: achos busnes llawn gydag atodiadau

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol ar gyfer cyflwyno'r Rheoliadau hyn, ond bydd y cymorth a ddarperir yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf yn rhoi'r prosesau a gynhwysir yn y Rheoliadau ar waith fel elfen allweddol o gostau gweinyddol cynnal y cynllun. Yn dilyn hynny, cymerwyd ffigurau'r prosiect yn y tablau isod o Achos Busnes yr SFS, i ddangos costau gweinyddol yn strwythur dylunio a gweithredu'r SFS.

Mae costau'r rhaglen sy'n deillio o weinyddu cynllun cymorth yr SFS yn cael eu hystyried o safbwynt y cynllun cyfan. Mae tegwch yn cael ei gynnig i'r ymgeiswyr cymwys hynny sy'n symud ymlaen i fod yn ddeiliaid cytundeb.

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb dangosol o'r gyllideb ar gyfer yr SFS. Mae'n seiliedig ar egwyddorion cyfrifyddu a chyllidebu adnoddau (RAB) ac yn dangos costau adnoddau dros y Cyfnod Pontio i'r SFS.

Hefyd, mae Tabl 1 yn darparu datganiad llif arian sy'n dangos faint y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei wario ar:

• Gweinyddu'r SFS a'r BPS (a'r RIS) dros y Cyfnod Pontio rhwng 2026 a diwedd 2029;
• Taliadau i ffermwyr o dan yr SFS a'r BPS tapro: bydd yr union raniad rhwng y ddau yn dibynnu faint fydd wedi ymuno â'r SFS;
• Unrhyw gostau ariannol eraill y gellid eu priodoli i'r SFS sy'n cael eu talu gan Lywodraeth Cymru; a
• Costau disgwyliedig CNC o sefydlu'r SFS ac yna ei gynnal dros y Cyfnod Pontio.

Mae Tabl 1 yn eithrio'r Costau Rhedeg Adrannol (DRC) sy'n gysylltiedig â chynnal yr SFS. Yn ymarferol, ni ellir rhannu'r costau hyn yn y dyfodol yn hawdd rhwng cymorth i SFS a chyfrifoldebau eraill. Disgwylir i'r holl gyllid ar gyfer yr SFS gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Ar 30 Medi 2025, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ei fod wedi ymrwymo hyd at £238m i Daliad Cyffredinol yr SFS i sicrhau'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a ddaw o'r Cynllun, ac o leiaf £102m tuag at gefnogi'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn 2026[22]. Mae achos ariannol Achos Busnes Llawn yr SFS yn amcangyfrif y rhaniad canlynol ar gyfer y gyllideb o £128m sy'n weddill sydd ar gael ar gyfer:
• Gweithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol o fewn yr SFS gan gynnwys cymorth nad yw'n SFS sy'n gysylltiedig â materion gwledig (£102m);
• Cyngor a chymorth arall (£12.8m);
• Costau gweinyddu rhaglenni sy'n gysylltiedig â datblygu, cynnal, cyflwyno a monitro rhaglenni cyllido ym maes Materion Gwledig (£13.6m).

Bydd y tapr arfaethedig ar gyfer y ffermwyr hynny sy'n dewis aros yn y BPS yn ystod y Cyfnod Pontio yn effeithio'n uniongyrchol ar y gyllideb sydd ar gael ar

[22] Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Achos Busnes a Sylfaen Dystiolaeth y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) (30 Medi 2025) | LLYW.CYMRU

gyfer yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol, o gymryd y cedwir gwerth y tapr hwn ar gyfer yr SFS. Bydd angen gwerth llawn yr hawliadau BPS hyn ar Daliad Cyffredinol yr SFS yn y dyfodol, ar sail y rhagdybiaeth y bydd pob fferm yn ymuno â'r SFS.

Tabl 1: Rhagamcan o'r Gwariant blynyddol ar yr SFS (£m, prisiau cyfredol)

| Elfennau'r gost | 2025 – 26 | 2026 – 27 | 2027 – 28 | 2028 – 29 | 2029 – 30 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu | 34.0 | 43.7 | 34.4 | 35.2 | 36.2 |
| Cyngor a Chyfarwyddyd | 24.9 | 31.3 | 31.4 | 31.5 | 31.6 |
| Taliadau i ffermwyr/perchenogion tir [23] | 340.8 | 333.7 | 334.0 | 334.0 | 333.9 |

Er mwyn sicrhau bod y newid i'r cymorth amaethyddol newydd yn barod erbyn lansio'r cynllun, mae angen buddsoddi yn systemau TG presennol yr RPW, a ddefnyddir i weinyddu cymorth. Mae tabl 2 yn dangos costau'r prosiect dros y cyfnod pontio o ran y buddsoddi sydd ei angen mewn TG i weinyddu prosesau rheoli a gorfodi'r cymorth, a'u rhoi ar waith, yn effeithiol. Mae'r enghraifft a ddarperir yn nhabl 2 yn cwmpasu pob elfen o'r SFS. Wrth i'r cymorth newydd gael ei ddatblygu, bydd angen cynyddol i ddiweddaru ac addasu'r systemau TG presennol i allu darparu'r cynlluniau newydd – mae'r rhain yn gostau anhysbys ac nid ydynt wedi'u cyfrif ar hyn o bryd.

Bydd y buddsoddiad disgwyliedig yn systemau TGCh RPW yn cael goblygiadau ar fantolen Llywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio'r dull llinell syth o amorteiddio dros bum mlynedd (sef dull cyfredol yr RPW o drin gwariant TGCh),
ceir crynodeb o'r goblygiadau i fantolen Llywodraeth Cymru yn Nhabl 2. Mae hyn yn dangos bod disgwyl i RPW fuddsoddi £60.1m
rhwng 2025-6 a 2029-30. Gwerth gweddilliol y buddsoddiad hwn yn 2029-30 fydd £40.4m.

[23] Mae hyn yn adlewyrchu y dybiaeth y bydd y treigl arian parod yn cadw'n wastad, ar sail dyraniad y gyllideb i BPS a RIS 2025-26, minws yr amcangyfrif o gostau'r rhaglen a chynghori.

Tabl 2: Rhagamcan o'i effaith ar fantolen Llywodraeth Cymru (£m, prisiau cyfredol)

| | 2025 – 6 | 2026 – 7 | 2027 – 8 | 2028 – 9 | 2029 – 30 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddi mewn TG** | **15.53** | **18.01** | **8.59** | **8.80** | **9.15** |
| **Buddsoddiad cronnus mewn TG** | **15.53** | **33.54** | **42.13** | **50.93** | **60.08** |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| **• 2025-6** | **3.11** | **3.11** | **3.11** | **3.11** | **3.11** |
| **• 2026-7** | | **3.60** | **3.60** | **3.60** | **3.60** |
| **• 2027-8** | | | **1.72** | **1.72** | **1.72** |
| **• 2028-9** | | | | **1.76** | **1.76** |
| **• 2029-30** | | | | | **1.83** |
| **Cyfanswm wedi'i amorteiddio** | **3.11** | **6.71** | **8.43** | **10.19** | **12.02** |
| **Cyfanswm wedi'i amorteiddio (cronnus)** | **3.11** | **9.81** | **18.24** | **28.42** | **40.44** |
| **Gwerth asedau TG (net)** | **12.42** | **23.73** | **23.89** | **22.50** | **19.64** |

Mae'r costau a restrir yn y tablau uchod yn dangos y costau ar gyfer gweinyddu cynnal yr SFS, ynghyd â chostau'r system TG i sicrhau bod y mecanweithiau ategol ar waith i alluogi'r cynllun i gyflawni'n briodol ei swyddogaethau.

**Ymgynghori**

Cynhaliwyd y diweddaraf o gyfres o ymgynghoriadau ar yr SFS yn 2024[24]. Cafodd y gofynion gafodd eu cynnig ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Er mai ychydig o ymatebion a ddaeth i law, rydym wedi'u hystyried ac wedi ceisio lleihau biwrocratiaeth lle medrwn. I'r perwyl hwn, rydym wedi sicrhau mai yng Nghanllawiau'r Cynllun y darperir manylion ar lefel y cynllun. O ganlyniad, gellir drafftio Rheoliadau mwy cyffredinol fyddai'n gallu cwmpasu pob cymorth amaethyddol yn y dyfodol.

**Asesiad Effaith Integredig**

Bydd adrannau 1 ac 8 o'r IIA yn cael eu cyhoeddi, yn ddwyieithog. Mae'r IIA yn cynnwys sawl asesiad, o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, i'r Asesiad o'r

Ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: yn cefnogi ffermwyr i ffermio a gaeodd ym mis Mawrth 2024

Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd dolenni i asesiadau llawn yn cael eu darparu adeg eu cyhoeddi.

**Cronfa Gyfunol Cymru**

Nid yw'r Rheoliad hwn yn cynnwys darpariaethau fydd yn arwain at wariant i Gronfa Gyfunol Cymru.

**Crynodeb**
**Opsiwn a Ffefrir 1 – Rheoliad Cyffredinol**

Mae'r opsiwn a ffefrir yn darparu ar gyfer opsiwn symlach o'i gymharu ag opsiynau dau a thri.

Bydd rheoliad sengl yn crynhoi'r holl bwerau rheoleiddio a roddir o dan adrannau 10 a 12 o ar gyfer cymorth a sefydlwyd ac sy'n weithredol o dan adran 8 o'r Ddeddf. Trwy beidio â chyfeirio'n uniongyrchol at bob cynllun cymorth neu fel arall, o fewn y rheoliad, sicrheir hirhoedledd y rheoliad a bydd cynlluniau cymorth yn y dyfodol yn gallu defnyddio'r rheoliadau a'u prosesau cefnogi i roi'r cymorth ar waith a'i ddarparu (boed yn gynllun neu fel arall) yn gymharol hawdd. Mae'r Rheoliad wedi'i ddrafftio i gwmpasu'r hyn a wyddom ar hyn o bryd a chynlluniau posibl yn y dyfodol.

Mae'n galluogi dulliau cyflawni amrywiol, o ffermwyr sy'n gwneud datganiadau blynyddol drwy'r Ffurflen Gais Sengl (SAF), dull sy'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf o ffermwyr, i wneud cais am gymorth a dyfarnu grant pwrpasol.

Bydd y gyfres sengl o Reoliadau yn galluogi cynlluniau cymorth i weinyddu, monitro a gorfodi cydymffurfiaeth ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cymorth ariannol a roddir i'r sector yn dryloyw.

Bydd pob cynllun cymorth sy'n gweithredu o dan y pŵer i ddarparu cymorth yn defnyddio'r un pŵer rheoleiddio. Bydd manylion rheolau'r cynllun (na fydd angen rheoliadau arnynt) yn cael eu darparu yng nghanllawiau'r cynlluniau.

Mae'n darparu cysondeb a thryloywder i geiswyr/deiliaid cytundeb ac i'r sector o ran prosesau gorfodi unffurf, er enghraifft, gosod y ffiniau lle mae rheoliad neu amod yn cael ei dorri a dyrannu cosbau yn ôl y cymorth. Mae hynny'n cefnogi dull cymesur o osod cosbau fel y dangosir o gynnal adolygiad o'r matrics cosbau a ddarperir ar gyfer yr SFS.

Mae'r Rheoliadau yn nodi y bydd gan gynlluniau amodau cymhwysedd y bydd ceisiadau yn cael eu cloriannu yn eu herbyn. Bydd canllawiau'r cynllun yn nodi manylion yr amodau cymhwysedd, ac unrhyw ofynion eraill sy'n briodol i'r cynllun cymorth.

Bydd canllawiau'r cynllun yn cynnwys rheolau'r cynllun a fydd yn nodi'r amodau cymhwysedd (hectarau, trosiant, BBaChau, neu ffermydd mawr, ffermydd teuluol neu ffermydd sy'n eiddo i gorfforaethau cenedlaethol/rhyngwladol ac ati), yn

ogystal â'r broses ar gyfer gweinyddu cynllun cymorth megis monitro, arolygiadau, apelau ac ati.

O ran monitro cynlluniau, bydd y Rheoliadau yn nodi y gellir monitro cynlluniau, a sut y bydd y monitro yn cael ei gynnal neu ei gofnodi, er enghraifft, drwy ddefnyddio technoleg lloeren neu synhwyro o bell. Bydd rheolau'r cynllun yn nodi pwrpas y monitro; y broses a'r ffordd y bydd yn cael ei ddefnyddio a'r ffordd y cesglir data i ategu gwaith monitro effeithiau cynllun, pa mor aml y cesglir data, pwy fydd yn ei gasglu a beth fydd yn cael ei wneud gyda'r data.

Felly, bydd y Rheoliadau yn nodi lefel nesaf y manylion nad yw'r Ddeddf Fframwaith yn ei nodi gan alluogi wedyn pob cynllun cymorth i ddefnyddio'r pŵer rheoleiddio a darparu'r wybodaeth fanylach yn nogfennau ategol y cynllun.

## 9 Asesu’r Gystadleuaeth

Mae'r Rheoliad yn gosod y fframwaith rheoli ar gyfer cynnal cynlluniau cymorth amaethyddol a sefydlir o dan y Ddeddf. Darperir cymorth yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf (ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n digwydd yng Nghymru).

Bydd y fframwaith rheolaethau gweithredol a gorfodi yn berthnasol i'r darpar geiswyr / deiliaid cytundeb hynny sy'n dewis gofyn am gymorth / cyllid grant o dan gynllun cymorth. Fel arfer, o ystyried natur y cymorth sydd ar gael, ffermwyr neu fusnesau amaethyddol, gan gynnwys busnesau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi amaethyddol, fydd yn teimlo eu heffaith yn bennaf.

Mater i bob cynllun a sefydlir yn y dyfodol fydd cloriannu a fydd ei effaith ar y gystadleuaeth yn andwyol neu'n fuddiol. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r SFS fel enghraifft, gan mai ychydig o feini prawf cymhwysedd sydd gan y cynllun, mae'n anelu at fod yn gymharol agored i bawb, er enghraifft ffermwyr sydd â dros nifer penodol o hectarau.

Gan ddibynnu ar y cynllun cymorth, gallai rhestr o ofynion cymhwysedd llymach gael ei chynnig ond bydd angen i gynlluniau cymorth a'u cyfranogwyr bob amser gydymffurfio â'r amod 'cymorth ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n digwydd yng Nghymru.'

Bydd y broses apelio yn gymwys hefyd i amodau cymhwysedd unrhyw gynllun ac felly ond yn gymwys i ddeiliaid cytundeb sy'n rhan o'r cynllun cymorth.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys yn yr un modd i bob ceisydd a / neu ddeiliad cytundeb o fewn cynllun cymorth, ac felly ni chânt effaith andwyol ar y gystadleuaeth.

<u>Gofynion Rheoli Cymhorthdal a Sefydliad Masnach y Byd (WTO)</u>

Bydd angen i bob cynllun cymorth ystyried goblygiadau ei gymorth o dan y Ddeddf Rheoli Cymhorthdal a Gofynion WTO. Er enghraifft, o dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022, mae'r SFS yn cael ei ystyried yn gymhorthdal. Yn unol â hynny, bydd Swyddogion yn cydweithio ag Uned Rheoli Cymhorthdal Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddatblygu i dalu am y cymhorthdal cyn i'r cynllun fynd yn fyw.

Hefyd, bydd angen rhoi gwybod i'r WTO o dan Gytundeb WTO ar Amaethyddiaeth bod yr SFS yn gynllun cymorth amaethyddol. Mae swyddogion eisoes yn cydweithio â Llywodraeth y DU ar gategori posibl y cynllun, sy'n debygol o fod yn 'flwch gwyrdd' fel y'i diffinnir yn Atodiad 2 y Cytundeb ar Amaethyddiaeth.

## 10 Adolygiad ar ôl ei weithredu

Bydd yr effeithiau / canlyniadau yn ogystal â'r prosesau a sefydlir yn y Rheoliadau hwn yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy'r fframwaith adrodd a sefydlwyd o dan y Ddeddf. Bydd angen i bob cymorth amaethyddol fabwysiadu'r fframwaith rheolaethau a gorfodi a sefydlir yn y Rheoliadau hyn i weithredu a gweinyddu'r cymorth yn effeithiol, boed hynny drwy asesu a gwirio cymhwysedd ymgeisydd i gynllun cymorth, ei fod yn cydymffurfio â chyfundrefn yr arolygiad a/neu a yw'n parhau i gydymffurfio â chytundeb y cynllun cymorth a rheolau'r cynllun, yn ogystal ag â threfn fonitro ar wahân ar gyfer apelau.

Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith monitro, gwerthuso ac adrodd strwythuredig ar gyfer cynlluniau cymorth (fel yr SFS) a Rheoli Tir yn Gynaliadwy ('SLM'). Mae'r Ddeddf yn sefydlu dau ofyniad gorfodol o ran adrodd ar lefel cynllun cymorth, sef Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Effaith.

Mae gofyn paratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar yr holl gymorth ariannol ac anariannol a ddarperir yn ystod y cyfnod adrodd, h.y. faint o arian sydd wedi'i wario, ar beth ac i bwy. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch beth sydd angen ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ym mharagraffau 3.154 a 3.155 o Femorandwm Esboniadol y Ddeddf.[25]

Bydd yr Adroddiad Effaith yn darparu gwybodaeth feintiol ac ansoddol am effaith y cymorth a ddarperir trwy'r pŵer i ddarparu cymorth, dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso yn sail i hwn. Bydd yn edrych ar effaith pob cynllun o ran cyflawni’r amcanion SLM, a yw'r cynllun(iau) yn addas i'r diben a'r hyn y gall fod angen ei newid i adlewyrchu'r effaith ddymunol. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch beth sydd angen ei gynnwys yn yr Adroddiad Effaith ym mharagraffau 3.161 a 3.164 o Femorandwm Esboniadol y Ddeddf.

Hefyd, mae gofyn i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad SLM bob pum mlynedd yn nodi eu hasesiad o (a) y cynnydd cronnus a wnaed, ers i’r ddyletswydd SLM ddod i rym, tuag at gyflawni'r amcanion SLM drwy arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt a (b) y cynnydd

[25] Memorandwm esboniadol Deddf Amaethyddiaeth Cymru 2023

a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd tuag at gyflawni'r amcanion hynny drwy arfer y swyddogaethau hynny. Mae gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi hefyd Ddatganiad o Ddangosyddion a Thargedau i ddarparu tryloywder ar ddull Llywodraeth Cymru o fesur cynnydd tuag at gyflawni amcanion SLM. Rhaid i'r adroddiad nodi (ymysg pethau eraill) y gwaith sydd wedi'i wneud i wireddu dangosyddion a thargedau.

Mae'r fframwaith monitro ac adrodd a sefydlwyd yn y Ddeddf yn ceisio sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith a bod atebolrwydd effeithiol, ac ymgysylltu priodol â'r Senedd, grwpiau diddordeb ac eraill. Mae’r darpariaethau monitro, gwerthuso ac adrodd yn y Ddeddf yn bwysig i asesu effeithiolrwydd polisïau ac i ddarparu sail dystiolaeth bwysig a datblygol ar gyfer parhau i ddatblygu polisi.

Mae'r apelau hefyd yn cael eu newid o dan Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025 i ddiwygio'r ffi sy'n gysylltiedig â'r panel annibynnol. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod un broses apelio yn cael ei chymhwyso i bob cynllun cymorth. Yn dilyn hynny, bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei monitro bob blwyddyn ar gyfer nifer yr apelau, eu canlyniadau a'u had-daliadau. Bydd adolygiad mewnol yn cael ei gynnal o fewn 3 blynedd i asesu effeithiolrwydd y ffi. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y newidiadau i Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025.